

YR WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL 2026



“Un Corff,  
Un Ysbryd”

**“ONE BODY, ONE SPIRIT”**

**WEEK OF PRAYER FOR CHRISTIAN UNITY**

**18-25 IONAWR 2026**

  
**churches  
together**  
IN BRITAIN AND IRELAND

[www.ctbi.org.uk/weekofprayer](http://www.ctbi.org.uk/weekofprayer)



Cadeirilan Etchmiadzin, Armenia (Llun: iStock.com/Ozbalci)

Mae ein thema Ysgrythurol ar gyfer 2026 (Effesiaid 4:4) yn ein hatgoffa bod yr alwad at undod yn alwad i weithio dros heddwch ar gyfer pawb ym mhob man. Mae'n alwad sy'n ganolog i genhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys Armenaidd, trwy gydol ei hanes a hyd heddiw, ac mae'n rhan hanfodol o'r profiad mae Cristnogion Armenia yn ei gyfrannu tuag at y gwaith a wneir ledled y byd i hybu undod Cristnogol. Yn y prif gynulliadau eciwmenaidd rhyngwladol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Eglwys Armenaidd wedi erfyn o'r galon ar i'r Eglwys gyfan eiriol yn gryfach ag un llais dros heddwch ar sail cyfiawnder yn y byd, nid yn unig ar gyfer Armeniaid, ond ar gyfer pawb sy'n dioddef o ganlyniad i drais, dadleoli ac erledigaeth.

Gyda'r nifer o Armeniaid sydd ar wasgar yn llawer mwy na phoblogaeth y wlad ei hun, mae'r Eglwys Armenaidd yn uno cymuned wirioneddol fyd-eang, sy'n bresennol yn Rwsia ac yn Wcráin, a ledled y Dwyrain Canol. Effeithir ar y gymuned Armenaidd gan y gwrthdrawiadau yn y mannau hynny sydd wedi dal sylw'r byd, a phrofodd hefyd loes o'r ffaith na roddir llawer o sylw i sefyllfa'r Armeniaid yr ymosodwyd arnynt a'u dadleoli gan Azerbaijan. Mae'r glanhau ethnig a'r llurgunio hawliau dynol cysylltiedig â hynny ar draul pobl Armenia, yn enwedig ym mamwlad hynafol Armenia yn Artsakh, wedi'u cofnodi'n fanwl gan arsylwyr hawliau dynol rhyngwladol. Eto mae'r gymuned ryngwladol yn sefyll o'r neilltu yn wyneb y colli bywydau, dadleoli teuluoedd, carcharu anghyfiawn a dinistrio treftadaeth ddiwylliannol sy'n digwydd.

# WELCOME

---



Etchmiadzin Cathedral, Armenia (Photo: iStock.com/Ozbalci)

Our Scriptural theme for 2026 (Ephesians 4:4) reminds us that the call to unity is a call to work for peace for all people everywhere. It is a call that goes to the heart of the mission and ministry of the Armenian Church, throughout its history and today, and it is a vital part of the experience that Armenian Christians bring to the global work of Christian unity. In the major international ecumenical gatherings of recent years, the Armenian Church has brought a heartfelt appeal for a stronger collective voice of the Church as an advocate for just peace in the world, not only for Armenians, but for all those suffering as a result of violence, displacement and persecution.

With the Armenian diaspora numbering many times the population of the country itself, the Armenian Church brings together a truly global community that is present in Russia and in Ukraine, and throughout the Middle East. The Armenian community is impacted by these conflicts that have captured the attention of the world, while also experiencing the pain of the comparative neglect of the situation of the Armenian people attacked and displaced by Azerbaijan. The ethnic cleansing and associated human rights abuses perpetrated against the Armenian people, especially in the ancient Armenian homeland of Artsakh, have been well documented by international human rights observers, yet the international community fails to act as lives are lost, families are displaced, people are unjustly imprisoned and cultural heritage is destroyed.

Ar gyfer Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon a'r Cyrff Eciwmenaidd Cenedlaethol yn yr ynysoedd hyn, mae Esgobaeth Eglwys Armenaidd y Deyrnas Unedig ac Iwerddon wedi tystio'n bwerus i'r alwad i fod yn dangnefeddwyr – trwy weddi, trwy eiriolaeth a chymorth dyngarol, trwy addysgu ynghylch heddwch a thrwy letygarwch a chyd-gyfarfod. Gwnânt hynny ynghyd ag ymrwymiad dwfn i undod Cristnogol fel rhan annatod o'r ffordd rydym i fyw yn unol â gorchymyn Crist i garu ein cymydog, ac fel ffynhonnell gobaith mewn amseroedd cythryblus.

Yn ystod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni, bydded i ni uno mewn gweddi ac eiriolaeth dros bobl Armenia ac Artsakh, gan alw am roi diwedd ar drais ac adfer heddwch. Gyda'n gilydd, gallwn ddwyn yr anghyfiawnderau hyn i'r amlwg ac, wrth wneud hynny, gynorthwyo i adeiladu dyfodol lle bydd hawliau pawb yn cael eu cydnabod a'u parchu.



**Ei Ras yr Esgob Hovakim Manukyan**  
**Primas**  
**Esgobaeth Eglwys Armenaidd**  
**y Deyrnas Unedig ac Iwerddon**



**Y Dr Nicola Brady**  
**Ysgrifennydd Cyffredinol**  
**Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain**  
**ac Iwerddon**

Cadeirlan Sant Gregor yr Ymoleuwr, Yerevan, Armenia. (Llun: iStock.com/VahanN)



---

For Churches Together in Britain and Ireland (CTBI) and the National Ecumenical Instruments on these islands, the Diocese of the Armenian Church of the United Kingdom and Ireland has provided a powerful witness to the call to be peacemakers – through prayer, through advocacy and humanitarian aid, through peace education, and through hospitality and encounter. This goes hand in hand with a deeply rooted commitment to Christian unity as integral to how we live out Christ’s commandment to love our neighbour, and as a source of hope in troubled times.

This Week of Prayer for Christian Unity, let us unite in prayer and advocacy for the people of Armenia and Artsakh, calling for an end to violence and the restoration of peace. Together, we can shine a light on these injustices and, in doing so, help build a future where the rights of all are upheld and respected.



**H. G. Bishop Hovakim Manukyan**  
**Primate**  
**Diocese of the Armenian Church**  
**of the United Kingdom and Ireland**



**Dr Nicola Brady**  
**General Secretary**  
**Churches Together in Britain**  
**and Ireland**

Saint Gregory The Illuminator Cathedral, Yerevan, Armenia (Photo: iStock.com/VahanN)



## "Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn eich galwad."

(Effesiaid 4:4)

Ar gyfer eleni, mae'r gweddïau a'r myfyrdodau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Gristnogol wedi'u paratoi gan ffyddloniaid Eglwys Apostolaidd Armenia, ynghyd â'u brodyr a'u chwiorydd yn yr Eglwys Gatholig ac Eglwys Efengylaidd Armenia. Mae'r adnoddau hyn yn seiliedig ar draddodiadau canrifoedd oed o weddi ac ymbil a arferir gan bobl Armenia, ynghyd ag emynau sydd wedi'u gweiddio ym mynachlogydd ac eglwys hynafol y wlad, gyda rhai o'r emynau hynny'n deillio o mor bell yn ôl â'r bedwaredd ganrif. Mae'r Wythnos Weddi am Undeb Gristnogol 2026 yn estyn gwahoddiad i elwa ar y dreftadaeth Gristnogol gyffredin hon ac i ymchwilio'n ddyfnach i'n cymdeithas yng Nghrist, sy'n uno Cristnogion ledled y byd.

Mae undod yn ofyniad dwyfol sy'n rhan annatod o'n hunaniaeth Gristnogol. Mae'n cynrychioli hanfod galwad yr Eglwys – galwad i arddangos undod tangnefeddus ein bywyd yng Nghrist yng nghanol ein hamrywiaeth. Mae'r undod dwyfol hwn yn ganolog i'n cenhadaeth ac yn cael ei gynnal gan gariad dwfn Iesu Grist, sydd wedi gosod i ni alwedigaeth unedig.

Trwy gydol yr Ysgrythurau Sanctaidd, mae galwad Duw at undod yn atseinio o'r amseroedd cynharaf. Gan ddechrau gyda'r Hen Destament, mae erfyniad Abram ar Lot yn pwysleisio'r awydd dwyfol am dangnefedd a chytgord ymhlith y ffyddloniaid: 'Peidied â bod cynnen rhyngom, na rhwng fy mugeiliaid i a'th rai di, oherwydd perthnasau ydym.' (Genesis 13:8) Mae galwad Abram am gytgord a pharch o'r ddwy ochr, er gwaethaf y ffaith iddo yntau a Lot ddewis llwybrau gwahanol, yn pwysleisio pwysigrwydd byw mewn heddwch.

Mae'r Salmau yn dathlu prydfwerthwch undod ymhlith pobl Dduw, gan ddatgan, 'Mor dda ac mor ddymunol yw i bobl fyw'n gytûn.' (Salm 133:1)

Yn y Testament Newydd, mae gweddi Iesu yn Ioan 17:21 yn galw ar gredinwyr i fod yn un fel y mae yntau a'r Tad yn un, gan ddangos bod ein hundod wedi'i wreiddio yn ein perthynas â Christ ac yn ein cenhadaeth ynghyd o rannu'r Newyddion Da. Mae gorchymyn sylfaenol Iesu ar i ni garu ein gilydd fel y mae yntau wedi ein caru ni (Ioan 13:34-35) yn cadarnhau mai'r cariad hwnnw yw hanfod ein hundod.

Mae epistolau Paul yn pwysleisio pwysigrwydd undod o fewn yr Eglwys, gan ein hannog i fyw yn deilwng o'n galwedigaeth gyda gostyngeiddrwydd, addfwynder, amynedd, a chariad (Effesiaid 4:1-3). Mae Effesiaid 4:4 yn crynhoi dysgeidiaeth Paul ynghylch undod, gan bwysleisio, yma hefyd, bod dilynwyr Crist yn cynrychioli 'un corff... ac un Ysbryd' wedi'u huno mewn un gobaith. Mae'r trosiad hwn yn dynodi'r Eglwys yn endid unedig sy'n goresgyn rhwystrau daearyddiaeth, cenedligrwydd, ethnigrwydd a thraddodiad. Mae Paul yn defnyddio'r ddelwedd o'r Eglwys fel Corff Crist i ddisgrifio ei hundod o fewn amrywiaeth ei haelodau.

**"There is one body and one Spirit,  
just as you were called to the one hope of your calling."  
(Ephesians 4:4)**

For this year, the prayers and reflections for the Week of Prayer for Christian Unity have been prepared by the faithful of the Armenian Apostolic Church, along with their brothers and sisters of the Armenian Catholic and Evangelical Churches. These resources draw upon centuries-old traditions of prayer and petitions used by the Armenian people, along with hymns that originated in the ancient monasteries and churches of Armenia, some of which date as far back as the fourth century. The Week of Prayer for Christian Unity 2026 extends an invitation to draw upon this shared Christian heritage and to delve more deeply into our fellowship in Christ, which unites Christians worldwide.

Unity is a divine mandate at the core of our Christian identity. It represents the essence of the Church's calling – a call to reflect the harmonious oneness of our life in Christ amidst our diversity. This divine unity is central to our mission and is sustained by the profound love of Jesus Christ, who has set before us a unified purpose.

Throughout the Holy Scriptures, God's call to unity resonates from the earliest times. Starting with the Old Testament, Abram's plea to Lot highlights the divine desire for peace and harmony among the faithful: 'Let there be no strife between you and me, and between your herders and my herders; for we are kindred' (Genesis 13:8). Abram's call for harmony and mutual respect, despite their eventual parting of ways, emphasises the importance of living peacefully.

The Psalms celebrate the beauty of unity among God's people, declaring, 'How very good and pleasant it is when kindred live together in unity!' (Psalm 133:1).

In the New Testament, Jesus' prayer in John 17:21 calls for believers to be one, as He and the Father are one, demonstrating that our unity is grounded in our relationship with Christ and our collective mission of sharing the good news. The foundational command of Jesus to love one another as He has loved us (John 13:34-35) reinforces that this love is the essence of our unity.

Paul's epistles stress the importance of unity within the Church, urging us to live lives worthy of our calling with humility, gentleness, patience and love (Ephesians 4:1-3). Ephesians 4:4 summarises the teachings of Paul about unity, emphasising here, too, that the followers of Christ represent 'one body and one Spirit', united in a single hope. This metaphor signifies the Church as a unified entity transcending barriers of geography, nationality, ethnicity and tradition. Paul uses the metaphor of the Church being the Body of Christ to describe its unity within the diversity of its members.

Gan bwysleisio pwysigrwydd undod Cristnogol, mae Paul yn ychwanegu ‘un Ysbryd’, gan gyfeirio at yr Ysbryd Glân, sy’n cynnal y gymdeithas honno ac yn grymuso’r Eglwys i gyflawni ei chenhadaeth. Yr Ysbryd Glân yw ffynhonnell bywyd ysbrydol ac arweiniad ymhlith credinwyr, gan sicrhau bod aelodau amrywiol yr Eglwys yn un mewn ffydd a nod. Mae’r Ysbryd yn meithrin cysylltiad dwfn, ysbrydol rhwng credinwyr, gan oresgyn gwahaniaethau a chreu cwlwm sy’n adlewyrchu undod y Drindod Sanctaidd. Mae’r cwlwm ysbrydol cyffredin hwn yn sail i gymod, gan arwain credinwyr ledled y byd a’u cymhwyso ar gyfer tystio a gweinidogaethu’n effeithiol.

Mewn byd gyda thraddodiadau a mynegiadau amrywiol, a rhanedig yn aml, o’r Ffydd Gristnogol, mae Effesiaid 4:4 yn ein hatgoffa bod yr holl gredinwyr yn rhan o ‘un corff’ Crist. Nid yw’r undod hwn yn fater o unfurfiaeth ond yn hytrach o ymrwymiad cyffredin i wirioneddau craidd y Ffydd Gristnogol. Mae’n dystiolaeth bwerus i rym trawsffurfiol yr Ysbryd Glân pan fo Cristnogion o gefndiroedd amrywiol yn dod ynghyd gyda nod a gweledigaeth gyffredin.

Trwy ei harferion a’i dysgeidiaeth, mae Eglwys Apostolaidd Armenia yn ein hysgogi i fyfyrion ddwys ynghylch hanfod undod o fewn Corff Crist yn gyffredinol. Wrth gyduno yng ngeiriau’r Credo, bydd y ffyddloniaid yn datgan eu bod yn credu mewn ‘un Eglwys lân Gatholig ac Apostolig’, a thrwy hynny’n proffesu bod yr undod hwnnw’n ganolog i’w bywyd ysbrydol. Gwelir penllanw’r mynegiant o’r undod hwn yng nghynullidiadau Ewcharistaidd yr Eglwys.

Bob dydd Sul, yn y Litwrgi, bydd y ffyddloniaid yn cofleidio ei gilydd ac yn canu, ‘Mae’r Eglwys wedi dod yn un’, amlygiad diriaethol o’r ffydd a rannant a’u nod cyffredin. Mae hanes cyfoethog, llawn merthyrdod, Eglwys Armenia a’i harweinwyr yn tystio’n bwerus i’w hymdrechion diwyro a’u dycnwch wrth gynnal y Ffydd Gristnogol yng ngwlad Armenia a’r gwledydd cyfagos. Dylai undod o fewn yr Eglwys godi uwchlaw cyffesu athrawiaethol; mae’n brofiad byw sy’n dyfnhau hunaniaeth ysbrydol Cristnogion ac yn cryfhau eu tystiolaeth ar y cyd. Wrth gofleidio’r undod hwn, a byw yn unol â hynny, mae Eglwys Apostolaidd Armenia nid yn unig yn anrhydeddu ei thraddodiadau sanctaidd ei hun ond hefyd yn cyfrannu o ddifrif tuag at undod ehangach Eglwys fyd-eang Crist. Mae myfyrion ar hynny’n ein gwahodd i gydnabod a gwerthfawrogi grym trawsffurfiol undod, o fewn ein cymunedau ffydd ein hunain ac yn yr Eglwys ehangach.

**‘Mor dda ac mor ddymunol  
yw i bobl fyw’n gytûn.’**

**(Salm 133:1)**

Bydded i ni gofleidio’r alwad ddwyfol hon at undod, nid fel delfryd haniaethol ond fel mynegiant hanfodol o’n ffydd. Mewn byd lle mae Corff Crist wedi’i glwyfo gan raniadau o fewn traddodiadau a chyffesiadau a rhyngddynt, mae galwad yr Apostol am undod yn cael ei gyfeirio at bob un ohonom, nid yn unig fel cymunedau eglwysig gwahanedig, ond hefyd fel unigolion o fewn ein cymunedau. Trwy fyw mewn undod, byddwn nid yn unig yn tystio i gariad a grym ein Harglwydd Iesu Grist ond hefyd yn ymgorffori hanfod yr hyn a ddysgodd. Wrth i ni gefnogi ein gilydd a dathlu ein doniau a’n galluoedd amrywiol, bydded i ni adlewyrchu calon Crist a hyrwyddo ei waith ar y ddaear.

---

Emphasising the importance of Christian unity, Paul adds ‘one Spirit’, referring to the Holy Spirit who sustains this fellowship and empowers the Church to fulfil its mission. The Holy Spirit is the source of spiritual life and guidance among believers, ensuring that the diverse members of the Church are together in faith and purpose. The Spirit fosters a deep, spiritual connection between believers, transcending differences and creating a bond that reflects the unity of the Holy Trinity. This shared spiritual bond is a basis for reconciliation, guiding believers globally and equipping them for effective witness and ministry.

In a world with diverse and often divided traditions and expressions of Christian faith, Ephesians 4:4 reminds us that all believers are part of the ‘one body’ of Christ. This unity is not about uniformity but a common commitment to the core truths of the Christian faith. It serves as a powerful witness to the transformative power of the Holy Spirit when Christians of varied backgrounds come together with a shared goal and vision.

Through its practices and teachings, the Armenian Apostolic Church offers us a profound reflection on the essence of unity within the universal Body of Christ. In affirming the Creed, the faithful declare their belief in ‘one, holy, catholic and apostolic Church’, thereby professing the centrality of this unity to their spiritual life. This commitment to unity finds its fullest expression in the Church’s Eucharistic gatherings. Every Sunday, in the Liturgy, the faithful embrace one another and sing, “The Church has become one”, a tangible manifestation of their collective faith and shared purpose.

The rich, martyrdom-filled history of the Armenian Church and her leaders speaks of their unwavering efforts and resilience to maintain the Christian faith in the land of Armenia and the surrounding region. Unity within the Church should transcend doctrinal affirmation; it is a lived experience that deepens their spiritual identity and strengthens their collective witness. In embracing and living out this unity, the Armenian Apostolic Church not only honours its sacred traditions but also contributes meaningfully to the broader unity of Christ’s universal Church. This reflection invites us to recognise and cherish the transformative power of unity, both within our own faith communities and in the wider Church.

**‘How very good and  
pleasant it is when kindred  
live together in unity!’**

**(Psalm 133:1)**

Let us embrace this divine calling to unity, not as an abstract ideal but as a vital expression of our faith. In a world where the Body of Christ is wounded by divisions within and between traditions and confessions, the Apostle’s call to unity is addressed to each of us, not only as separated church communities, but also as individuals within our communities. By living in unity, we not only witness to the love and power of our Lord Jesus Christ but also embody the essence of His teachings. As we support one another and celebrate our diverse gifts and talents, let us reflect the heart of Christ and further His work on earth.

# Diwrnod 1

## Ein galwad at undod

### Adnod ar gyfer y Diwrnod

‘Yr wyf fi, felly, sy’n garcharor er mwyn yr Arglwydd, yn eich annog i fyw yn deilwng o’r alwad a gawsoch.’ (Effesiaid 4:1)

### Darnau ychwanegol o’r Beibl

Micha 6:6-8

Salm 133

Ioan 15:15-17

### Sylwadau

Pa mor aml ydyn ni’n ystyried ein galwad ni ein hunain i geisio undod?

Mae Effesiaid 4:1 yn pwysleisio arwyddocâd byw bywyd sy’n ‘deilwng o’r alwad a gawsoch’. Gellir ystyried gweithio tuag at undod Cristnogol yn fater dewisol, yn ‘ychwanegiad’, ond mae’r llythyr at yr Effesiaid yn ein hatgoffa bod yr alwad i geisio undod yn hanfodol i genhadaeth Duw ar y ddaear. Rhodd gan Dduw yw undod Cristnogol, sy’n cyfoethogi bywydau unigolion, eglwysi a’r gymuned ehangach. Wrth i ni gydweithio a chydaddoli gyda rhai o draddodiadau Cristnogol eraill, rydym yn dysgu



mwyl am Dduw ac yn dod yn fwy galluog i wasanaethu eraill ac i herio anghyfiawnder. Mewn byd sy’n gynyddol ranedig, mae Duw yn galw pawb ohonom i oresgyn rhwystrau a dod yn offerynnau cymod, gan ein gwahodd i fod yn ddwylo a thraed Crist.

Mae cydnabod a chofleidio’n ostyngedig yr alwad hon i geisio undod yn galluogi’r Eglwys i adlewyrchu cymeriad Crist i’r byd, wrth i ni weithio tuag at feithrin

perthynas gytûn a chefnogol ag eraill  
a cheisio gweithredu cyfiawnder, caru  
trugaredd a cherdded yn ostyngedig  
gyda'n Duw.

## Myfyrdod

Fy neffro i 'ngalwad,  
rhyddhau fy nghalon.  
Clustiau i glywed,  
ewyllys i dderbyn  
yn agored wylaidd.  
Datguddio sylweddoliad newydd,  
agwedd ar ras nas gwelwyd.  
Tyfu mewn cariad.  
Ynghyd, dod yn deilwng o alwad Duw.

## Gweddi

Dduw cariadus,  
fe'n gelwaist i fod yn un.  
Bydded i'n hymateb i'th alwad  
ein harwain i weithio'n frwd dros  
gyfiawnder a chymod  
ac i rannu dy oleuni â'r byd.  
Amen.

## Cwestiynau

**Personol:** Sut mae myfyrio ar yr  
'alwad a gawsoch' yn eich ysbrydoli  
i geisio mwy o undod ymhlith  
Cristnogion?

**Lleol:** Sut mae'r alwad i weithio tuag at  
undod yn cael ei mynegi o fewn eich  
cyd-destun lleol heddiw?

**Byd-eang:** Pa wahaniaeth all cryfhau  
undod ymhlith Cristnogion ei wneud  
o fewn cymdeithas yn gyffredinol?

## Ewch a Gnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Myfyriwch ynghylch ystyr eich traddodiad Cristnogol i chi ac  
ysgrifennwch sylwadau byr, fel mewn dyddiadur, ynghylch hynny.

**Lleol:** Ewch i wasanaeth eglwys arall yn eich cymuned leol ac ysgrifennwch  
sylwadau byr, fel mewn dyddiadur, ynghylch eich profiad.

**Byd-eang:** Ceisiwch gynnull grŵp trafod bach i fyfyrio ynghylch yr hyn mae  
coffáu 1700 mlynedd ers mabwysiadu Credo Nicea yn ei olygu i chi.

# Day 1

## Our call to unity

### Verse for the Day

‘I therefore, the prisoner in the Lord, beg you to lead a life worthy of the calling to which you have been called’ (Ephesians 4:1).

### Additional Scripture Passages

Micah 6:6-8

Psalms 133

John 15:15-17



### Commentary

How often do we consider our own call to unity?

Ephesians 4:1 emphasises the significance of living ‘a life worthy of the calling to which you have been called’. The work of Christian unity can be regarded as optional, an ‘add-on’, but the letter to the Ephesians reminds us that the call to unity is critical to God’s mission on earth. Christian unity is a gift from God that enriches the lives of individuals, churches and the wider community. As we work and worship with those of other Christian traditions, we learn more of God and are better equipped

to serve others and to challenge injustice. In an increasingly divided world, God calls us all to overcome barriers and become instruments of reconciliation, inviting us to be Christ’s hands and feet.

Recognising and humbly embracing this call to unity enables the Church to reflect Christ to the world, as we seek to nurture harmonious and supportive fellowship with others and seek to act justly, love mercy and walk humbly with our God.

## Reflection

Calling me out,  
releasing my heart.  
Ears to hear,  
a will to embrace.  
Open, and humble.  
New perspectives revealed,  
a facet of grace unseen.  
Growing in love.  
Together, becoming worthy of  
God's call.

## Prayer

Loving God,  
You have called us to unity.  
May our response to Your call  
lead us to actively seek justice and  
reconciliation  
and share Your light with the world.  
Amen.

## Questions

**Personal:** How does reflecting on 'the calling to which you have been called' inspire you to greater Christian unity?

**Local:** How is the call to unity currently expressed within your local context?

**Global:** What difference can increased Christian unity make to wider society?

## Go and do

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Reflect upon what your Christian tradition means to you and write a short diary entry about it.

**Local:** Visit the worship service of another Christian church in your local community and write a short diary entry on what you experience.

**Global:** Try bringing together a small discussion group to reflect upon what the Nicaea 1700 anniversary means for you.

# Diwrnod 2

## Goddef ein gilydd mewn cariad

### Adnod ar gyfer y Diwrnod

‘Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad.’ (Effesiaid 4:2)

### Darnau ychwanegol o’r Beibl

Sechareia 7:8-10

Salm 25:6-10

Luc 10:30-36

### Sylwadau

Mae awdur y llythyr at yr Effesiaid yn ein hannog i fyw mewn ffordd sy’n deilwng o’n galwad Gristnogol trwy ddarparu arweiniad cymdeithasol dwys. Mae’n galw credinwyr i fod ‘yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad’ (Effesiaid 4:2). Nid taith bersonol yn unig yw’r alwad ddwyfol hon ond fe’i gwneir yn amlwg yn ein rhyngweithio ag eraill. Mae’r pedair rhinwedd a nodir – gostyngeddrwydd, addfwynder, amynedd a goddefgarwch – oll yn hanfodol ar gyfer meithrin perthynas gariadus ag eraill. Mae byw yn unol â’r rhinweddau hyn yn golygu ymdrin ag eraill mewn ysbryd o wir ostyngeddrwydd, gan ymddwyn yn addfwyn hyd yn oed tuag at y rhai sy’n profi ein hamynedd, ac ymagweddu’n

oddefgar at y rhai sy’n ein herio. Ar ei ddwysaf, mae’n golygu goddef ein gilydd er gwaethaf ein gwahaniaethau, a thrwy hynny adlewyrchu cariad sy’n estyn y tu hwnt i bob rhaniad daearol ac yn ymgorffori gras tosturi diderfyn Duw. Mae llyfr Markus Zusak *The Book Thief* yn cynnig diffiniad sy’n mynegi’r gras hwn: ‘Not-leaving: an act of trust and love, often deciphered by children.’ Mae goddef ein gilydd yn gofyn gras sy’n dyfalbarhau pan fo’r demtasiwn i roi’r gorau iddi’n fawr.

### Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,  
dysg ni sut mae bod yn  
amyneddgar â’n gilydd  
mewn gostyngeddrwydd ac  
addfwynder.  
Bydded i’r goleuni rwy’t ti’n  
ei lewyrchu ar ein llwybr ein  
harwain tuag at undod  
a’n cynorthwyo i iacháu clwyfau  
ymrannu a difaterwch,  
sydd mor aml yn dryllio cymunedau.  
Amen.

## Myfyrdod

‘Not-leaving: an act of trust and love, often deciphered by children.’

Cariad di-ymadael: rwyf yn culhau'r llwybr rhyngom fel ei bod yn amhosibl cerdded heibio.

Cariad di-ymadael: rwyf yn torri'n calonnau â'th angen, a dyna ni'n penlinio wrth dy ymyl.

Cariad di-ymadael: rwyf ti'n dod â beichiau'r byd at ein drws ac, os byddwn yn ateb y cnoc, gwelwn nad dim ond galw heibio wyt ti. Rwyf ti'n dod i aros.

Cariad di-ymadael: gall cadw llety fod yn dasg ddiddiolch a diddiwedd. Bydded i ni fod yn rhan o'r corff sy'n barod i wneud y gwaith nad yw byth yn gadael.

## Cwestiynau

**Personol:** Beth yw'r cysylltiadau neu'r materion personol sy'n gwacáu eich empathi?

**Lleol:** Sut all rhinweddau gostyngeddwrwydd, addfwynder, amynedd a goddefgarwch, fel y'u nodir yn y llythyr at yr Effesiaid, ein cynorthwyo fel credinwyr i ymdrin â rhaniadau o fewn ein cymunedau lleol, a'u goresgyn?

**Byd-eang:** Galwyd y gwesteigr yn Luc 10 i ofalu, gydag ond gair dieithryn y byddai'n cael ei ad-dalu beth bynnag y byddai'n ei wario dros ben. Trafodwch yr amrywiol ddehongliadau a chwestiynau sy'n deillio o'r adnod hon. Beth allai'r dehongliadau hynny eich ysgogi i wneud yn eich perthynas â'ch cymdogion byd-eang?

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Cwblhewch dasg rydych wedi bod yn ei hosgoi.

**Lleol:** Ystyriwch fentrau o fewn eich cymuned sy'n gofyn dycnwch a chysondeb a meddyliwch am ffyrdd i'w cefnogi'n ymarferol.

**Byd-eang:** Mae yna faterion yn ein byd heddiw sy'n peri 'difaterwch gorlwytho' – y teimlad bod y peth yn rhy fawr i ni allu gwneud dim yn ei gylch felly rydym yn cilio rhagddo. Gofynnwyd i rabi uniongred unwaith sut oedd yn gallu ufuddhau i'r 613 o orchmynion yn y Tora. Atebodd: 'Dewis un a dechrau.' Ewch a gwnewch yr un modd.

# Day 2

## Bearing with one another in love

### Verse for the Day

‘... with all humility and gentleness, with patience, bearing with one another in love’ (Ephesians 4:2).

### Additional Scripture Passages

Zechariah 7:8-10

Psalms 25:6-10

Luke 10:30-36

### Commentary

The author of Ephesians urges us to live in a manner worthy of our Christian calling by providing this profound social guidance: Ephesians calls believers ‘with all humility and gentleness, with patience, bearing with one another in love’ (Ephesians 4:2). This divine calling is not merely a personal journey but is vividly expressed in our interactions with others. The four virtues highlighted – humility, gentleness, patience and tolerance – are all crucial for nurturing loving relationships. To embody these virtues means approaching others with a spirit of genuine humility, extending gentleness even towards those who test our patience, and showing

forbearance with those who challenge us. Most profoundly, it involves ‘bearing with one another’ through our differences, reflecting a love that transcends all earthly divides and embodies the grace of God’s boundless compassion. Markus Zusak’s *The Book Thief* offers a definition that expresses this grace: ‘Not-leaving: an act of trust and love, often deciphered by children.’ ‘Bearing with’ requires a grace that hangs on when the temptation to give up is great.

### Prayer

Lord Jesus Christ,  
show us how to be patient with one  
another in humility and gentleness.  
May the light You shine on our path  
lead us towards unity  
and help us heal the wounds of  
division and indifference  
that often break communities apart.  
Amen.

## Reflection

‘Not-leaving: an act of trust and love, often deciphered by children.’

Not-leaving-love: you narrow the road between us, making it impossible to walk by.

Not-leaving-love: you break our hearts with your need, and we find ourselves kneeling beside you.

Not-leaving-love: you carry the world to our door and, if we answer, we see that you’re not popping by. You’re moving in.

Not-leaving-love: innkeeping can be a thankless, interminable task. May we be part of the body prepared to do the work that never leaves.

## Questions

**Personal:** What are the personal relationships or issues that exhaust your empathy?

**Local:** How can the virtues of humility, gentleness, patience and tolerance, as mentioned in the letter to the Ephesians, help us as believers navigate and overcome divisions within our local communities?

**Global:** The innkeeper in Luke 10 was called to care, with only the word of a stranger that he would be repaid whatever more he spent. Discuss different interpretations and questions this verse evokes. What might those interpretations lead you to do in your relationships with your global neighbours?

## Go and do

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Complete a task you have been avoiding.

**Local:** Consider initiatives in your community that require perseverance and consistency and explore ways to become usefully supportive.

**Global:** There are issues in our world today that cause ‘overload apathy’ – the feeling that it is too big to do anything about so we shield ourselves. An orthodox rabbi was asked once how he observed the 613 commandments in the Torah. His answer: ‘Pick one and start.’ Go and do the same.

# Diwrnod 3

## Rhwymyn tangnefedd

### Adnod ar gyfer y Diwrnod

‘Ymrowch i gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y mae’r Ysbryd yn ei roi.’ (Effesiaid 4:3)

### Darnau ychwanegol o’r Beibl

Eseia 11:6-9

Salm 86:8-13

Ioan 14:27-31

### Sylwadau

Mae arddel tangnefedd yn hanfodol ar gyfer cynnal undod o fewn yr eglwys. Yn Effesiaid 4:3, mae ‘rhwymyn tangnefedd’ yn dynodi egwyddor hanfodol ac egniol sydd nid yn unig yn rhwymyn cyswllt rhyngom fel Cristnogion ond sydd hefyd yn cynnal undod y gymuned Gristnogol. Roedd Crist, Tywysog Tangnefedd (Eseia 9:6), yn pregethu heddwch a chymod ac yn byw yn unol â hynny. Mae tangnefedd yn un o ffrwythau’r Ysbryd (Galatiaid 5:22), yn rhodd ac yn ganlyniad i weithgarwch yr Ysbryd. Mae ‘rhwymyn tangnefedd’ yn rym gweithredol sy’n cynnal undod yr Eglwys, gan glymu aelodau amrywiol ynghyd, er gwaethaf gwahaniaethau cefndir neu farn. Mae heddwch yn meithrin perthynas ystyrlon rhwng credinwyr, gan ganiatáu iddynt ryngweithio’n gytûn a bod yn barotach i faddau i’w gilydd. Mae heddwch yn

rym allanol sy’n dirymu grymoedd gwrthdaro a thangnefedd yn rym mewnlol sy’n ein cynnal ac yn ein herio pan fydd ymrannu’n fygythiad. Mae Paul yn pwysleisio bod gwir undod yn gofyn am ymrwymo’n barhaus i heddwch. Mae’n galw am ymdrechu i feithrin a hyrwyddo heddwch ymhlith Cristnogion.

### Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,  
ti yw Tywysog Tangnefedd.  
Cryfha rwymyn tangnefedd rhyngom  
ninnau ac yn ein byd cythryblus.  
Cythrybla galonnau pawb y mae’n dda  
ganddynt ryfel;  
cyffwrdd â chlwyfau pawb y mae rhyfel  
yn effeithio arnynt.  
Gweddiwn yn arbennig dros bobl  
Armenia ac Artsakh,  
a’u cydwladwyr ledled y byd.  
Bydded i oleuni dy gariad lewyrchu yn  
holl fannau tywyll ein byd  
a phrysuro’r dydd y bydd yr holl  
bobloedd yn gallu byw mewn  
heddwch ar sylfaen cyfiawnder.  
Amen.

## Myfyrdod

Fe ddysgwn ddilyn y ffordd osgoi,  
jest gadael i bethau fod.

Ac ia,

dyna beth dw i'n ei ddymuno mor aml.  
Heddwch heb ofynion.

Heddwch lle dw i'n cael llonydd,  
pan all rhywun arall ofalu am helbulon  
y byd.

Ond dyna'r heddwch mae'r byd yn  
ei roi,  
yr heddwch sy'n ildio,  
yr heddwch sy'n gwahanu,  
heddwch tywysog y byd hwn.

Dad-heddycha fi o hynny heddiw,  
fel y gallaf arddel  
y tangnefedd na all y byd ei roddi  
ac sydd yn meiddio llefaru'i enw  
drwy lanast cythrwfwl a gelyniaeth.

## Cwestiynau

**Personol:** Pan rydych yn teimlo tangnefedd mewnol, pa mor bwysig ydi hi i chi bod heddwch rhyngoch ag eraill hefyd?

**Lleol:** Sut mae dysgeidiaeth Paul bod tangnefedd yn un o ffrwythau'r Ysbryd yn effeithio ar y ffordd rydym yn rhyngweithio ac yn ymwneud â'n gilydd o ddydd i ddydd yn ein cymunedau, yn enwedig pan fo angen cymodi neu faddau?

**Byd-eang:** 'Mae heddwch yn syniad gwych ond nid yw'n ymarferol bosibl yn y byd sydd ohoni heddiw.' Sut fydddech chi'n herio'r honiad hwnnw?

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Lluniwch ddelwedd (er enghraifft, llun, ffotograff neu waith celf) sy'n cyfleu beth yw heddwch i chi, a'i rannu ym mha bynnag ffordd rydych chi'n teimlo sy'n briodol.

**Lleol:** Nodwch faes sy'n achosi tyndra o fewn eich cymuned eglwysig leol, neu'r gymuned yn gyffredinol, ac ystyriwch sut yn ymarferol i sefydlu heddwch gwirioneddol yn y sefyllfa honno.

**Byd-eang:** Mae'r byd heddiw yn wynebu tensiynau cynyddol, gwrthdaro a rhyfela gwirioneddol. Pa un peth allai eich eglwys neu grŵp o eglwysi ymrwymo i'w wneud i herio'r realiti hwnnw?

# Day 3

## The bond of peace

### Verse for the Day

‘... making every effort to maintain the unity of the Spirit in the bond of peace’ (Ephesians 4:3).

### Additional Scripture Passages

Isaiah 11:6-9

Psalms 86:8-13

John 14:27-31

### Commentary

Peace is a crucial factor in maintaining unity within the Church. In Ephesians 4:3, the ‘bond of peace’ signifies a vital and dynamic principle that not only connects us as Christians but also sustains the unity of the Christian community. Christ, the Prince of Peace (Isaiah 9:6), preached and lived peace and reconciliation. Peace is a fruit of the Spirit (Galatians 5:22), both a gift and a result of the Spirit at work. The ‘bond of peace’ is an active force that maintains church cohesion, holding diverse members together despite differences in backgrounds or opinions. Peace fosters meaningful relationships, allowing believers to interact harmoniously and to forgive one another more readily. Peace is both an external power which

disempowers the forces of conflict and an inner strength which upholds and challenges us when division threatens. Paul highlights the fact that true unity requires ongoing commitment to peace. It calls for active cultivation and promotion of peace among Christians.

### Prayer

Lord Jesus Christ,  
You are the Prince of Peace.  
Strengthen the bond of peace among  
us and in our troubled world.  
Disturb the hearts of all who would  
make war; touch the wounds of all  
who are afflicted by war.  
We pray especially for the people of  
Armenia and Artsakh,  
and their kindred throughout  
the world.  
Let the light of Your love shine in all  
the dark places of our world,  
and hasten the day when all peoples  
may dwell in peace with justice.  
Amen.

## Reflection

We learn the get-out,  
just to let things be.  
And yeah,  
that's what I so often want.  
An undemanding peace.  
A peace where I'm left alone,  
when someone else can take care of  
the world's troubles.

But that's the peace that the  
world gives,  
the peace which surrenders,  
the peace which divides,  
the peace of the prince of this world.

Un-peace me of that now,  
that I may own  
the peace which the world can't give  
and which dares to speak its name  
where strife and division thrive.

## Questions

**Personal:** When you feel you are at peace with yourself, how important is it that you are at peace with others as well?

**Local:** How does the Apostle Paul's teaching that peace is a fruit of the Spirit impact our daily interactions and relationships within our communities, especially where there is a need for reconciliation or forgiveness?

**Global:** 'Peace is a great concept but is not a practicable possibility in the world today.' How would you challenge that assertion?

## Go and do

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Create an image (for example, a picture, photo or work of art) which symbolises peace for you, and share it in whatever way you feel is appropriate.

**Local:** Identify an area of tension within your local church community, or the community at large, and consider how practically to bring true peace to that situation.

**Global:** The world today faces growing tensions, conflict and actual warfare. What one thing could your church or group of churches commit to doing to challenge that reality?

---

## DYDDIADAU

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis adegau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n wyl symbolaidd o safbwynt undod yr eglwys. Penderfynwch chi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Diwrnodau â'r rhifau 1-8.

## TREFN Y GWASANAETH

Eleni rydym wedi darparu dewis o ddwy drefn addoliad. Daw Fersiwn A oddi wrth Eglwys Apostolaidd Armenia, ac mae'n wahoddiad i addoli o fewn y traddodiad Uniongred. Fersiwn diwygiedig yw Fersiwn B ar gyfer y rhai y byddai'n well ganddynt wasanaeth y gellir ei addasu fel y dymunir yn unol â'r arfer yn lleol.

Gellir tynnu'r ddwy drefn addoliad allan o ganol y llyfryn a'u llungopïo os dymunwch. Fel arall, gellir lawrlwytho'r holl adnoddau o wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon ac mae croeso i chi eu golygu neu eu haddasu ar gyfer defnydd lleol. Os gwelwch yn dda, cydnabyddwch ffynhonnell y deunydd fel Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

## WAL UNDOD CRISTNOGOL

Os gwelwch yn dda, ychwanegwch fanylion eich digwyddiadau a ffotograffau ohonynt ynghyd â'ch gweddïau a'ch negeseuon o undod at y "wal" undod Cristnogol ar [www.weekofprayer.org](http://www.weekofprayer.org) drwy eu rhoi ar X (Twitter) gan ddefnyddio hashnod #wpcuwall. Bydd eich trydariau yn ymddangos yn awtomatig (ar ôl oedi byr).

## HAWLFRAINT Y FFOTOGRAFFAU

Llun y clawr, t23 a t55: [iStock.com/YorVen](https://iStock.com/YorVen)  
Khachkar (croes) Armenaidd, t10, t12 a'r patrwm ar sail croes trwy gydol y llyfryn: [iStock.com/iSidhe](https://iStock.com/iSidhe)  
t2 a 3: [iStock.com/Ozbalci](https://iStock.com/Ozbalci)  
t4 a 5: [iStock.com/VahanN](https://iStock.com/VahanN)  
t48 a 49: [iStock.com/1255k](https://iStock.com/1255k)  
t54 a thrwy gydol y gwasanaethau: [iStock.com/takepicsforfun](https://iStock.com/takepicsforfun)  
t74 a'r clawr cefn: [iStock.com/Anna\\_Anikina](https://iStock.com/Anna_Anikina).

YR WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL 2026

# ADDOLIAD ECIWMENAIDD

Fersiwn A



Daw'r drefn gwasanaeth hon oddi wrth Eglwys Apostolaidd Armenia ac mae'n wahoddiad i addoli o fewn y traddodiad Uniongred. Gellir canfod trefn amgen yn Fersiwn B (t55).

## Gweddi'r Arglwydd

Arweinydd

Bendigedig yw ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Cynulleidfa

**Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw.  
Deled dy deyrnas.**

**Gwneler dy ewyllys ar y ddaear megis y mae yn y nefoedd.**

**Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol**

**a maddau i ni ein dyledion fel y maddeuwn ninnau  
i'n dyledwyr.**

**Ac nac arwain ni i brofedigaeth eithr gwared ni rhag drwg.**

Arweinydd

Cans eiddot ti yw'r deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniant yn oes oesoedd.

Cynulleidfa

**Amen.**

## Blaenweddi

Darlleneydd 1

Bendigedig fyddo enw'r Arglwydd byth bythoedd, gan fod ei enw yn wyneb yr haul.

Darlleneydd 2

Drwy'r Arglwydd bendithir holl genhedloedd y ddaear a bydd yr holl genedlaethau'n ei addoli.

Darlleneydd 1

Bendigedig yw Arglwydd Dduw Israel, unig gyflawnydd gweithredoedd rhyfeddol. Bendigedig fydd ei enw gogoneddus hyd byth. Llenwir yr holl fyd â'i ogoniant.

Cynulleidfa

**Amen! Amen!**

Darlleneydd 2

Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân.



This order of service comes from the Armenian Apostolic Church and is an invitation to worship within the Orthodox tradition. An alternative approach can be found in Version B (p55).

## The Lord's Prayer

**Leader** Blessed is our Lord Jesus Christ. Amen.

**Assembly** **Our Father who art in heaven, hallowed be thy name.  
Thy kingdom come.  
Thy will be done on earth as it is in heaven.  
Give us this day our daily bread  
and forgive us our trespasses as we forgive those who  
trespass against us.  
And lead us not into temptation but deliver us from evil.**

**Leader** For thine is the kingdom and the power and the glory  
forever and ever.

**Assembly** **Amen.**

## Invocation

**Reader 1** May the name of the Lord be blessed forever, for His name  
is before the sun.

**Reader 2** All the nations of the earth will be blessed through Him  
and all generations will extol Him.

**Reader 1** Blessed is the Lord God of Israel, the only worker of  
wondrous deeds. The holy name of His glory is forever  
blessed. The whole world will be filled with His glory.

**Assembly** **Amen! Amen!**

**Reader 2** Glory to the Father and to the Son and to the Holy Spirit.

Darlleneydd 1 Yn awr a phob amser a hyd yn oes oesoedd.

**Cynulleidfa** Amen.

Darlleneydd 2 Eto mewn tangnefedd, atolygwn ar yr Arglwydd i wrando  
ein gweddïau, ein dyrchafu i fywyd a thrugarhau wrthym.

Arweinydd Bendith a gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân.  
Yn awr a phob amser a hyd yn oes oesoedd.

**Cynulleidfa** Amen.

*Salm 72:15-18 (addaswyd)*

## Emyn (ar thema goleuni)

*Tra byddir yn canu'r emyn, goleuir kannwyll fawr ym mhen blaen yr eglwys.*

## Litani

Darlleneydd O godiad haul yn y dwyrain hyd y machlud yn y gorllewin,  
a ledled y byd Cristnogol, lle bynnag y bo pobl yn galw  
ar enw'r Arglwydd mewn sancteiddrwydd – trwy eu  
gweddïau a'u hymbil bydded i'r Arglwydd drugarhau  
wrthym. Erfyniwn ar Dduw i'n rhyddhau oddi wrth bechod  
ac oddi wrth demtasiynau'r byd. Bydded i'r Arglwydd  
dderbyn addunedau a deisyfiadau ein calonnau a'n cyfrif yn  
deilwng o'i ffydd a'i orchmynion ynghyd â'i holl saint.  
Hollalluog Arglwydd ein Duw, dyrchafa ni i fywyd  
a thrugarha wrthym.

**Cynulleidfa** Dyrchafa ni i fywyd, O Arglwydd.

Darlleneydd (Os cynhelir y gwasanaeth yn y bore)  
Y bydd yr Arglwydd yn hebrwng i mewn y bore heulog hwn



Reader 1                      Now and always and unto the ages of ages.

**Assembly**                      **Amen.**

Reader 2                      Again in peace let us beseech the Lord. Heed our prayers,  
raise us to life and have mercy on us.

Leader                          Blessing and glory to the Father and to the Son and to the  
Holy Spirit.  
Now and always and unto the ages of ages.

**Assembly**                      **Amen.**

*Psalm 72:15-18 (adapted)*

## Hymn of Light

*As the hymn is being sung, a large candle is lit in the front of the church.*

## Litany

Reader                          From sunrise in the east to sunset in the west, and  
throughout the entire Christian world, wherever people  
call on the name of the Lord in holiness – by their prayers  
and intercession may the Lord have mercy on us. Let us  
beseech God to deliver us from sin and from the temptations  
of the world. May the Lord accept the vows and  
supplications of our hearts and count us worthy of His faith  
and His commandments together with all of his saints.  
Almighty Lord our God, raise us to life and have mercy  
on us.

**Assembly**                      **Raise us to life, O Lord.**

Reader                          *(If celebrated in the morning)*  
That the Lord may usher forth this sunlit morning and guide



ac yn ein cyfarwyddo drwy'r diwrnod sy'n dilyn mewn tangnefedd; mewn ffydd, deisyfwn ar yr Arglwydd.

neu

*(Os cynhelir y gwasanaeth gyda'r hwyr)*

Y bydd yr Arglwydd yn hebrwng i mewn yr hwyr sy'n dod a'r nos fydd yn dilyn mewn tangnefedd; mewn ffydd, deisyfwn ar yr Arglwydd.

**Cynulleidfa**

**Caniatâ hynny, O Arglwydd.**

**Darllenydd**

Am i angel tangnefedd fod yn warchodwr i ni, ymbiliwn ar yr Arglwydd.

**Cynulleidfa**

**Caniatâ hynny, O Arglwydd.**

**Darllenydd**

Am faddeuant a rhyddhad oddi wrth ein camweddau, ymbiliwn ar yr Arglwydd.

**Cynulleidfa**

**Caniatâ hynny, O Arglwydd.**

**Darllenydd**

Am nerth rhyfeddol a grymus y groes sanctaidd i'n cynorthwyo, ymbiliwn ar yr Arglwydd.

**Cynulleidfa**

**Caniatâ hynny, O Arglwydd.**

**Darllenydd**

Unwaith eto, am ein ffydd ddilys a sanctaidd, bawb ynghyd, ymbiliwn ar yr Arglwydd.

**Cynulleidfa**

**Arglwydd, trugarha.**

**Darllenydd**

Cyflwynwn ein hunain a'n gilydd i'n Harglwydd Dduw Hollalluog.

**Cynulleidfa**

**Cyflwynwn ein hunain i ti, o Arglwydd.**





the day ahead in peace; with faith, let us beseech the Lord.

or

*(If celebrated in the evening)*

That the Lord may usher forth this coming evening and the night ahead in peace; with faith, let us beseech the Lord.

**Assembly**

**Grant it, O Lord.**

**Reader**

For an angel of peace to be our guardian, let us ask the Lord.

**Assembly**

**Grant it, O Lord.**

**Reader**

For the pardon and forgiveness of our transgressions, let us ask the Lord.

**Assembly**

**Grant it, O Lord.**

**Reader**

For the great and mighty power of the holy cross to help us, let us ask the Lord.

**Assembly**

**Grant it, O Lord.**

**Reader**

Once again, for our true and holy faith, all together, let us beseech the Lord.

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Reader**

Let us commit ourselves and one another to the almighty Lord our God.

**Assembly**

**We commit ourselves to You, O Lord.**

**Darllenydd**

Trugarha wrthym, Arglwydd ein Duw, yn dy fawr  
drugaredd. Dywedwn ynghyd:

**Cynulleidfa**

**Arglwydd, trugarha. Arglwydd, trugarha.  
Arglwydd, trugarha.**

## Gweddi a Rhannu Arwydd Tangnefedd

*Gall yr Arweinydd wynebu tua'r dwyrain ar gyfer y weddi hon, gan weddio â breichiau estynedig:*

**Arweinydd**

O godiad haul yn y dwyrain hyd y machlud yn y gorllewin,  
bendigedig wyt ti, o Arglwydd, gan mai ti yw'r Brenin, ac  
y mawrygir dy enw ledled y bydysawd. Boed i'n salmau  
atseinio'n felys yn dy glyw. Bydded i gyfiawnder wawrio  
o'th berffeithrwydd ac esgyn uwchlaw ein gwendid, a  
gogonedder dy enw sancteiddiaf. A bydded i ni ddod yn  
deilwng i gadw d'orchmynion ac i ganu mawl a gogoniant  
i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân, yn awr a phob amser a  
hyd yn oes oesoedd. Amen.

*Mae'r Arweinydd yn troi at y bobl a gall wneud arwydd y groes, gan ddweud:*

**Arweinydd**

Tangnefedd a fo i bawb.

**Cynulleidfa**

**A chyda'th ysbryd dithau.**

*Gall y bobl gyfnewid arwydd tangnefedd addas.*

**Darllenydd**

Ymgrymwn gerbron Duw.

*Ymgryma'r bobl gerbron Duw yn addolgar, gan ddweud:*

**Cynulleidfa**

**Ger dy fron, o Arglwydd.**



Reader

Have mercy on us, Lord our God, in Your great mercy. Let us all say together as one:

Assembly

**Lord, have mercy. Lord, have mercy. Lord, have mercy.**

## Prayer and Sharing the Peace

*The Leader may face east for the following prayer, which is prayed with arms outstretched:*

Leader

From sunrise in the east to sunset in the west, blessed are You, O Lord, because You are King, and Your name is revered throughout the universe. Let our psalmody resound sweetly in Your hearing. Let justice dawn from Your righteousness and rise over our frailty, and may Your most holy name be glorified. And let us become worthy to abide by Your commandments and to sing praise and glory to the Father and to the Son and to the Holy Spirit, now and always and unto the ages of ages. Amen.

*The Leader faces the people and may make the sign of the cross, while saying:*

Leader

Peace to all.

Assembly

**And with your spirit.**

*The people may exchange a suitable greeting of peace.*

Reader

Let us bow down to God.

*The people bow down to God in worship, saying:*

Assembly

**Before You, O Lord.**

*Gall yr Arweinydd wynebu tua'r Dwyrain a gweddio eto, gan ddweud:*

**Arweinydd**

Dduw anfarwol, Dduw tragwyddol, buost yn doriad gwawr y goleuni yn y byd hwn gan ein goleuo o dywyllwch ein pechod. Dduw anfeidrol, daethost i'n bodolaeth feidrol, gan dywallt doniau'r Ysbryd Glân yn helaethwch ar dy greaduriaid. Yn awr a hyd dragwyddoldeb, fe'th folir, y Duw goruchaf, gyda'r Tad a'r Ysbryd Sancteiddiolaf, yn awr a phob amser a hyd yn oes oesoedd.

**Cynulleidfa**

**Amen.**

## Darlleniadau o'r Ysgrythur

**Darllenydd 1**

Daw'r darlleniad hwn o broffwydoliaeth Eiseia (58:6-11).

Onid dyma'r dydd ympryd a ddewisais:  
tynnu ymaith rwymau anghyfiawn,  
a llacio clymau'r iau,  
gollwng yn rhydd y rhai a orthrymwyd,  
a dryllio pob iau?  
Onid rhannu dy fara gyda'r newynog,  
a derbyn y tlawd digartref i'th dŷ,  
dilladu'r noeth pan y'i gweli,  
a pheidio ag ymguddio rhag dy deulu dy hun?  
Yna fe ddisgleiria d'oleuni fel y wawr,  
a byddi'n ffynnu mewn iechyd yn fuan;  
bydd dy gyfiawnder yn mynd o'th flaen,  
a gogoniant yr Arglwydd yn dy ddilyn.  
Pan elwi, bydd yr Arglwydd yn ateb,  
a phan waeddi, fe ddywed, 'Dyma fi.'

Os symudi'r gorthrwm ymaith,  
os peidi â chodi bys i gyhuddo ar gam,  
os rhoddi o'th fodd i'r anghenus,



*The Leader may turn to the east and prays again, saying:*

**Leader**

Everlasting God, Eternal God, You dawned as light in this world and You illumined us from the darkness of our sin. Infinite God, You came into our finite existence, abundantly pouring out the gifts of the Holy Spirit on Your creatures. Now and for all eternity You are extolled, most great God, with the Father and the most Holy Spirit, now and always and unto the ages of ages.

**Assembly**

**Amen.**

## Scripture Readings

**Reader 1**

This reading is from the Prophet Isaiah (58:6-11).

Is not this the fast that I choose:  
to loose the bonds of injustice,  
to undo the thongs of the yoke,  
to let the oppressed go free,  
and to break every yoke?

Is it not to share your bread with the hungry,  
and bring the homeless poor into your house;  
when you see the naked, to cover them,  
and not to hide yourself from your own kin?  
Then your light shall break forth like the dawn,  
and your healing shall spring up quickly;  
your vindicator shall go before you,  
the glory of the LORD shall be your rearguard.  
Then you shall call, and the LORD will answer;  
you shall cry for help, and he will say, Here I am.

If you remove the yoke from among you,  
the pointing of the finger, the speaking of evil,  
if you offer your food to the hungry



a diwallu angen y cystuddiol,  
yna cyfyd goleuni i ti o'r tywyllwch,  
a bydd y caddug fel canol dydd.  
Bydd yr Arglwydd yn dy arwain bob amser,  
yn diwallu dy angen mewn cyfnod sych,  
ac yn cryfhau dy esgyrn;  
yna byddi fel gardd ddyfradwy,  
ac fel ffynnon ddŵr  
a'i dyfroedd heb ballu.

## Darllenydd 2

Daw'r darlleniad hwn o Lythyr yr Apostol Paul at yr Effesiaid (4:1-13).

Yr wyf fi, felly, sy'n garcharor er mwyn yr Arglwydd, yn eich annog i fyw yn deilwng o'r alwad a gawsoch. Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad. Ymrowch i gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi. Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn eich galwad; un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad i bawb, yr hwn sydd goruwch pawb, a thrwy bawb, ac ym mhawb.

Ond i bob un ohonom rhoddwyd gras, ei ran o rodd Crist. Am hynny y mae'r Ysgrythur yn dweud:

'Esgynnodd i'r uchelder, gan arwain ei garcharorion  
yn gaeth;  
rhoddodd roddion i bobl.'

Beth yw ystyr 'esgynnodd'? Onid yw'n golygu ei fod wedi disgyn hefyd i barthau isaf y ddaear? Yr un a ddisgynnodd yw'r un a esgynnodd hefyd ymhell uwchlaw'r nefoedd i gyd, i lenwi'r holl greadigaeth. A dyma'i roddion: rhai i fod yn apostolion, rhai yn broffwydi,



and satisfy the needs of the afflicted,  
then your light shall rise in the darkness  
and your gloom be like the noonday.  
The LORD will guide you continually,  
and satisfy your needs in parched places,  
and make your bones strong;  
and you shall be like a watered garden,  
like a spring of water,  
whose waters never fail.

## Reader 2

This reading is from the Letter of the Apostle Paul to the Ephesians (4:1-13).

I, therefore, the prisoner in the Lord, beg you to lead a life worthy of the calling to which you have been called, with all humility and gentleness, with patience, bearing with one another in love, making every effort to maintain the unity of the Spirit in the bond of peace. There is one body and one Spirit, just as you were called to the one hope of your calling, one Lord, one faith, one baptism, one God and Father of all, who is above all and through all and in all.

But each of us was given grace according to the measure of Christ's gift. Therefore it is said,

'When he ascended on high he made captivity itself  
a captive;  
he gave gifts to his people.'

(When it says, 'He ascended', what does it mean but that he had also descended into the lower parts of the earth? He who descended is the same one who ascended far above all the heavens, so that he might fill all things.) The gifts he gave were that some would be apostles, some prophets,



rhai yn efengylwyr, rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon, i gymhwyso'r saint i waith gweinidogaeth, i adeiladu corff Crist. Felly y cyrhaeddwn oll hyd at yr undod a berthyn i'r ffydd ac i adnabyddiaeth o Fab Duw. Y nod yw dynoliaeth lawn dwf, a'r mesur yw'r aeddfedrwydd sy'n perthyn i gyflawnder Crist.

**Côr neu  
Godwr Canu/  
Cynulleidfa**

**Alelwia. Alelwia.  
Canys gyda thi mae ffynnon bywyd;  
yn dy oleuni dithau y gwelwn oleuni.**

**Darllenydd**

Alelwia. Cyfodwch ar eich traed.

*Mae'r Arweinydd yn troi at y bobl a gall wneud arwydd y groes, gan ddweud:*

**Arweinydd**

Tangnefedd fo i bawb.

**Cynulleidfa**

**A chyda'th ysbryd dithau.**

**Darllenydd**

Gwrandewch yn astud ar Efengyl Sanctaidd Iesu Grist yn ôl Ioan (12:31-36).

**Côr neu  
Godwr Canu**

**Gogoniant i ti, Arglwydd ein Duw.**

**Darllenydd**

Dalier sylw! Mae Duw yn llefaru.

[Meddai Iesu wrth y dorf:] 'Dyma awr barnu'r byd hwn; yn awr y mae tywysog y byd hwn i gael ei fwrw allan. A minnau, os caf fy nyrchafu oddi ar y ddaear, fe dynnaf bawb ataf fy hun.' Dywedodd hyn i ddangos beth fyddai dull y farwolaeth oedd yn ei aros. Yna atebodd y dyrfa ef: 'Yr ydym ni wedi dysgu o'r Gyfraith fod y Meseia i aros am byth. Sut yr wyt ti'n dweud, felly, bod yn rhaid i Fab y Dyn gael ei ddyrchafu? Pwy yw'r Mab y Dyn yma?'



some evangelists, some pastors and teachers, to equip the saints for the work of ministry, for building up the body of Christ, until all of us come to the unity of the faith and of the knowledge of the Son of God, to maturity, to the measure of the full stature of Christ.

**Choir or Cantor/ Assembly**      **Alleluia. Alleluia.**  
**For with You is the fountain of life;**  
**in Your light we see light.**

**Reader**      Alleluia. Rise to your feet.

*The Leader faces the people and may make the sign of the cross, while saying:*

**Leader**      Peace to all.

**Assembly**      **And with your spirit.**

**Reader**      Listen attentively to the holy Gospel of Jesus Christ according to John (12:31-36).

**Choir or Cantor**      **Glory to You, Lord our God.**

**Reader**      Attention! God is speaking.

[Jesus said to the crowd:] ‘Now is the judgement of this world; now the ruler of this world will be driven out. And I, when I am lifted up from the earth, will draw all people to myself.’ He said this to indicate the kind of death he was to die. The crowd answered him, ‘We have heard from the law that the Messiah remains for ever. How can you say that the Son of Man must be lifted up? Who is this Son of Man?’



Dyweddodd Iesu wrthynt, ‘Am ychydig amser eto y bydd y goleuni yn eich plith. Rhodiwch tra bo’r goleuni gennych, rhag i’r tywyllwch eich goddiweddyd. Nid yw’r sawl sy’n rhodio yn y tywyllwch yn gwybod lle y mae’n mynd. Tra bo’r goleuni gennych, credwch yn y goleuni, ac felly plant y goleuni fyddwch.’

**Côr neu  
Godwr Canu**

**Gogoniant i ti, ein Harglwydd Iesu Grist.**

## Pregeth/Homili

### Gweddi

**Darlennydd**

Arglwydd grasol, Dduw pawb,  
tywysydd y colledig, goleuni’r rhai sydd yn y tywyllwch.  
Mae ein llygaid yn troi atat ti, clyw ein gweddïau.  
Bydded i haul dy ogoniant ddisgleirio, gan roi bywyd a  
goleuni i bawb, o’r dwyrain i’r gorllewin, ac o’r gogledd i’r  
de. Bydded i belydrau gwawr dy wanwyn tragwyddol ddeffro  
ni sy’n disgwyl dy ddyfodiad.

Iesu Grist, y Golau o’r Goleuni, triga ynom ni, sydd wedi dod  
ynghyd i addoli dy enw sanctaidd a gwerthfawr. Bydded  
i’th ddisgleirdeb bywiol danio ynom gariad dyfnach at ein  
gilydd. Bydded i’th oleuni tanbaid ennyn ynom undod mwy  
llewyrchus yn feunyddiol. Fel blodau amrywiol yng ngardd  
dy Deyrnas, bydded i’th loywder dwyfol ein hysbrydoli i  
gyd-flodeuo. Ac felly, oll yn un, bydded i ni bob amser mewn  
llawenydd dy foli a’th ogoneddu, ynghyd â’r Tad a’r Ysbryd  
Glân, yn awr a phob amser a hyd yn oes oesoedd. Amen.

*Addaswyd o eiriau Sant Gregor o Narek*



Jesus said to them, ‘The light is with you for a little longer. Walk while you have the light, so that the darkness may not overtake you. If you walk in the darkness, you do not know where you are going. While you have the light, believe in the light, so that you may become children of light.’

**Choir or Cantor**    **Glory to You, our Lord Jesus Christ.**

## Sermon/Homily

### Prayer

**Reader**

Gracious Lord, God of all,  
Guide for the lost, Light for those in darkness.  
Our eyes turn to You; hear our prayers.  
May the sun of Your glory shine forth, giving life and light to all, from the east to the west, and from the north to the south. Let the morning rays of Your eternal spring awaken us who await Your coming.

O Jesus Christ, Light from the Light, dwell within us, who have come together to worship Your holy and precious name. Let Your life-giving radiance kindle within us a deeper love for one another. May Your brilliant light stir us to ever more flourishing unity. Like diverse flowers in the garden of Your Kingdom, may Your divine brilliance cause us to bloom in harmony. And so, all as one, may we always joyfully praise and glorify You, and the Father and the Holy Spirit, now and always and unto the ages of ages. Amen.

*Adapted from St Gregory of Narek*



# Salm Ymatebol

*Mae dwy ochr y gynulleidfa yn adrodd neu'n canu adnodau'r salm bob yn ail, gyda phawb yn ymuno yn yr ymateb. Tra adroddir neu lafargenir y salm, dosberthir canhwyllau i'r bobl..*

## Darllenydd

Mae ein llygaid yn troi atat ti, o Dduw pawb. Trugarha wrthym a chlyw ein gweddïau.

## Cynulleidfa

**Mae ein llygaid yn troi atat ti, o Dduw pawb. Trugarha wrthym a chlyw ein gweddïau.**

## Ochr 1

Y mae'r Arglwydd yn frenin; gorfoledded y ddaear, bydded ynysoedd lawer yn llawen!

## Ochr 2

Y mae cymylau a thywyllwch o'i amgylch, cyfiawnder a barn yn sylfaen i'w orsedd.

## Cynulleidfa

**Mae ein llygaid yn troi atat ti, o Dduw pawb. Trugarha wrthym a chlyw ein gweddïau.**

## Ochr 1

Mae tân yn mynd o'i flaen, ac yn llosgi ei elynion oddi amgylch.

## Ochr 2

Y mae ei fellt yn goleuo'r byd, a'r ddaear yn gweld ac yn crynu.

## Cynulleidfa

**Mae ein llygaid yn troi atat ti, o Dduw pawb. Trugarha wrthym a chlyw ein gweddïau.**

## Ochr 1

Y mae'r mynyddoedd yn toddi fel cwyrr o flaen yr Arglwydd, o flaen Arglwydd yr holl ddaear.

## Ochr 2

Y mae'r nefoedd yn cyhoeddi ei gyfiawnder, a'r holl bobloedd yn gweld ei ogoniant.



# Responsorial Psalm

*The two sides of the assembly recite or chant verses of the psalm alternately, with all joining together on the response. As the psalm is being recited/chanted, candles are distributed to the people.*

**Reader**

Our eyes turn to You, O God of all. Have mercy on us and hear our prayers.

**Assembly**

**Our eyes turn to You, O God of all. Have mercy on us and hear our prayers.**

**Side 1**

The LORD is king! Let the earth rejoice;  
let the many coastlands be glad!

**Side 2**

Clouds and thick darkness are all around him;  
righteousness and justice are the foundation of his throne.

**Assembly**

**Our eyes turn to You, O God of all. Have mercy on us and hear our prayers.**

**Side 1**

Fire goes before him,  
and consumes his adversaries on every side.

**Side 2**

His lightnings light up the world;  
the earth sees and trembles.

**Assembly**

**Our eyes turn to You, O God of all. Have mercy on us and hear our prayers.**

**Side 1**

The mountains melt like wax before the LORD,  
before the Lord of all the earth.

**Side 2**

The heavens proclaim his righteousness;  
and all the peoples behold his glory.



**Cynulleidfa**

**Mae ein llygaid yn troi atat ti, o Dduw pawb. Trugarha wrthym a chlyw ein gweddïau.**

**Ochr 1**

Bydded cywilydd ar yr holl addolwyr delwau,  
sy'n ymfrostio mewn eilunod;  
ymgrymchw iddo ef, yr holl dduwiau.

**Ochr 2**

Clywodd Seion a llawenhau, ac yr oedd trefi Jwda  
yn gorfoleddu,  
o achos dy farnedigaethau, o Arglwydd.

**Cynulleidfa**

**Mae ein llygaid yn troi atat ti, o Dduw pawb. Trugarha wrthym a chlyw ein gweddïau.**

**Ochr 1**

Oherwydd yr wyt ti, Arglwydd, yn oruchaf dros yr holl  
ddaeear;  
yr wyt wedi dy ddyrchafu'n uwch o lawer na'r holl dduwiau.

**Ochr 2**

Y mae'r Arglwydd yn caru'r rhai sy'n casáu drygioni,  
y mae'n cadw bywydau ei ffyddloniaid,  
ac yn eu gwaredu o ddwylo'r drygionus.

**Cynulleidfa**

**Mae ein llygaid yn troi atat ti, o Dduw pawb. Trugarha wrthym a chlyw ein gweddïau.**

**Ochr 1**

Heuwyd goleuni ar y cyfiawn,  
a llawenydd ar yr uniawn o galon.

**Ochr 2**

Llawenhewch yn yr Arglwydd, rai cyfiawn,  
a moliannwch ei enw sanctaidd!

**Cynulleidfa**

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân.  
Yn awr a phob amser a hyd yn oes oesoedd. Amen.**

*Salm 97*



**Assembly**

**Our eyes turn to You, O God of all. Have mercy on us and hear our prayers.**

**Side 1**

All worshippers of images are put to shame,  
those who make their boast in worthless idols;  
all gods bow down before him.

**Side 2**

Zion hears and is glad, and the towns of Judah rejoice,  
because of your judgments, O God.

**Assembly**

**Our eyes turn to You, O God of all. Have mercy on us and hear our prayers.**

**Side 1**

For you, O LORD, are most high over all the earth;  
you are exalted far above all gods.

**Side 2**

The LORD loves those who hate evil;  
he guards the lives of his faithful;  
he rescues them from the hand of the wicked.

**Assembly**

**Our eyes turn to You, O God of all. Have mercy on us and hear our prayers.**

**Side 1**

Light dawns for the righteous  
and joy for the upright in heart.

**Side 2**

Rejoice in the LORD, O you righteous,  
and give thanks to his holy name!

**Assembly**

**Glory to the Father and to the Son and to the Holy Spirit.  
Now and always and unto the ages of ages. Amen.**

*Psalms 97*



## Emyn (ar thema Duw yn ein goleuo)

*Tra cenir yr emyn, mae dau o bobl ifanc sy'n cludo canhwyllau neu daprau heb eu goleuo yn eu cynnau o'r gannwyll ganolog a rhennir y goleuni â phawb sydd yn yr eglwys.*

## Y Credo

### Arweinydd

Yng ngloywder goleuni Doethineb Crist,  
cyffeswn ynghyd ein ffydd gyffredin.

### Cynulleidfa

Credwn yn un Duw,  
y Tad hollalluog,  
gwneuthurwr nef a daear,  
a phob peth gweledig ac anweledig.  
Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,  
unig Fab Duw,  
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,  
Llewyrch o Lewyrch,  
gwir Dduw o wir Dduw,  
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,  
yn un hanfod â'r Tad,  
a thrwyddo ef y gwnaed pob peth:  
yr hwn er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth  
a ddisgynnodd o'r nefoedd,  
ac a wnaed yn gnawd trwy'r Ysbryd Glân  
o Fair Forwyn,  
ac a wnaethpwyd yn ddyn,  
ac a groesholiwyd hefyd drosom dan Pontius Pilat.  
Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.  
Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,  
ac esgynnodd i'r nef,  
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.  
A daw drachefn mewn gogoniant  
i farnu'r byw a'r meirw:



# Hymn

*While the hymn is being sung, two young people holding unlit candles or tapers light them from the central candle and the light is passed to all in the church.*

## Creed

Leader

Bathed in the light of the Wisdom of Christ,  
together, let us confess our common faith.

Assembly

**We believe in one God,  
the Father, the Almighty,  
maker of heaven and earth,  
of all that is, seen and unseen.  
We believe in one Lord, Jesus Christ,  
the only Son of God,  
eternally begotten of the Father,  
Light from Light,  
true God from true God,  
begotten, not made;  
of one Being with the Father.  
Through him all things were made.  
For us all, and for our salvation  
he came down from heaven;  
and was incarnate of the Holy Spirit and the virgin Mary,  
and was made human.  
For our sake he was crucified under Pontius Pilate;  
he suffered and was buried.  
On the third day he rose from the dead in accordance with  
the scriptures.  
He ascended to heaven  
and is seated at the right hand of the Father.  
He will come again in glory  
to judge the living and the dead**

ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.  
Credwn yn yr Ysbryd Glân,  
yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,  
sy'n deillio o'r Tad,  
yr hwn gyda'r Tad a'r Mab  
a gydaddolir ac a gydogoneddir,  
ac a lefarodd trwy'r proffwydi.  
Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.  
Cydnabyddwn un Bedydd er maddeuant pechodau.  
A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,  
a bywyd y byd sydd i ddyfod. Amen

## Gweddïau i gloi

### Arweinydd

Unwaith eto, mewn tangnefedd, ymbiliwn ar yr Arglwydd.  
Gogoneddwn Dduw Hollalluog, a dywynnodd ei oleuni ar  
ei greaduriaid. Yn awr, bydded iddo unwaith eto dywynnu ei  
drugaredd hael ar y rhai sy'n gogoneddu ei enw mewn cân.  
Hollalluog Arglwydd ein Duw, dyrchafa ni i fywyd a  
thrugarha wrthym.

### Cynulleidfa

**Arglwydd, trugarha. Arglwydd, trugarha.  
Arglwydd, trugarha.**

### Arweinydd

Arglwydd Iesu Grist, graslon a hollalluog, Fab Duw, ti yw'r  
gwir Oleuni, a fwriodd allan dywyllwch pechod, ac a  
lewyrchodd yn ein calonnau â llawenydd a gobaith dy  
Deyrnas dragwyddol.

### Cynulleidfa

**Arglwydd, trugarha.**

### Arweinydd

Arglwydd cariadus, derbynia weddïau dy holl blant ffyddlon  
ledled y byd, sy'n galw arnat ti ag un meddwl, un llais ac  
un galon. Trwy dy ddisgybl annwyl Ioan, addewaist, os ydym  
yn cerdded yn dy oleuni, y byddwn yn mwynhau cymundeb  
â'n gilydd,



and his kingdom will have no end.  
We believe in the Holy Spirit,  
the Lord, the giver of life,  
who proceeds from the Father.  
Who, with the Father and the Son, is worshipped  
and glorified,  
who has spoken through the Prophets.  
We believe in one, holy, catholic and apostolic Church.  
We confess one baptism for the forgiveness of sins.  
We look forward to the resurrection of the dead,  
and to life in the age to come. Amen.

## Closing Prayers

**Leader**

Again, in peace, let us beseech the Lord.  
Let us glorify Almighty God, who has shone His light upon  
His creatures. Now, may He once more shine His abundant  
mercy upon those who glorify His name in song. Almighty  
Lord our God, raise us to life and have mercy on us.

**Assembly**

**Lord, have mercy. Lord, have mercy. Lord, have mercy.**

**Leader**

Gracious and Almighty Lord Jesus Christ, Son of God, You  
are the true Light, who cast out the darkness of sin and  
shone into our hearts the joy and hope of Your eternal  
Kingdom.

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Leader**


Loving Lord, accept the prayers of all Your faithful children  
throughout the world, who call out to You with one mind,  
one voice and one heart. Through Your beloved disciple  
John, You promised that if we walk in Your light, then we  
will have communion with one another,



Mynachlog Kecharis, Armenia. (Llun:iStock.com/1255k)



Kecharis monastery, Armenia (Photo: iStock.com/1255k)





ac y bydd dy waed gwerthfawr yn ein glanhau o bob pechod.  
Tyrd â'r cymundeb bendigedig hwnnw i ni, o Waredwr!

### **Cynulleidfa**

#### **Arglwydd, trugarha.**

### **Arweinydd**

Caniatâ i ni dangnefedd, o Arglwydd cariadus, a dilea felltith aflonyddwch a thrais mewn cymdeithas oddi ar wyneb y ddaear. Tro galonnau pawb sy'n rhyfela a chyffwrdd â chlwyfau pawb sy'n dioddef oherwydd rhyfel. Cysura'r holl garcharorion rhyfel a dwg hwy adref ar fyrder. Bydded i oleuni dy gariad ddisgleirio yn holl fannau tywyll ein byd a phrysurâ'r dydd y gall yr holl bobloedd fyw mewn heddwch ar sylfaen cyfiawnder.

### **Cynulleidfa**

#### **Arglwydd, trugarha.**

### **Arweinydd**

Arglwydd Iesu Grist, ein noddfa a'n lloches, edrych yn dosturiol ar ffoaduriaid ledled y byd, y rhai sy'n dioddef ing dadleoli a cholli eu cartrefi. Ysgoga ni i amlygu ein cymundeb â thi, â hwy ac â'n gilydd trwy gynnig lletygarwch a chymorth cariadus.

### **Cynulleidfa**

#### **Arglwydd, trugarha.**

### **Arweinydd**

Grist ein Gwaredwr, gweddiwn dros bobl Armenia ac Artsakh, a'u cydwladwyr ledled y byd, a drodd amser maith yn ôl at dy oleuni trwy bregethu yr Apostol Thadeus a thystiolaeth wyrthiol Sant Gregor yr Ymoleuwr.

### **Cynulleidfa**

#### **Arglwydd, trugarha.**

### **Arweinydd**

Llewyrcha oleuni dy gyfiawnder a'th ddoethineb ar dy holl greaduriaid. Gwna ni'n blant y goleuni a phlant y dydd, fel y gallwn bob amser fyw ein bywydau o barch tuag atat, a dod,



and Your precious blood will cleanse us of all sin. Bring us that blessed communion, O Saviour!

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Leader**

Grant us peace, O Loving Lord, and remove the scourge of civil unrest and violence from the face of the earth. Change the hearts of all who make war and touch the wounds of all who are afflicted by war. Comfort all prisoners of war and speedily bring them home. Let the light of Your love shine in all the dark places of our world and hasten the day when all peoples may dwell in peace with justice.

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Leader**

O Refuge and Shelter, Lord Jesus Christ, look with compassion on refugees throughout the world, who suffer the agony of displacement and the loss of their homes. Move us to manifest our communion with You, with them and with each other through gestures of hospitality and loving help.

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Leader**

O Christ, our Saviour, we pray for the people of Armenia and Artsakh, and their kindred throughout the world, who long ago turned to Your light through the preaching of the Apostle Thaddeus and the miraculous witness of St Gregory the Illuminator.

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Leader**

Shine the light of Your righteousness and wisdom on all Your creatures. Make us children of light and children of the day, so that we may always live our lives reverently,



ar gyfer yr holl fyd, yn rhai sy'n adlewyrchu'n deilwng dy  
oleuni bywiol.

**Cynulleidfa**      **Arglwydd, trugarha.**

**Arweinydd**      Oherwydd ti yw ein Gwaredwr, ac i ti y bo'r gogoniant,  
yr awdurdod a'r anrhydedd,  
yn awr a phob amser a hyd yn oes oesoedd.

**Cynulleidfa**      **Amen.**

**Emyn (ar thema Crist yn ein harwain drwy'r byd i'r nef)**

## Gweddi'r Arglwydd

**Arweinydd**      Bendigedig yw ein Harglwydd Iesu Grist.

**Cynulleidfa**      **Amen.**

**Cynulleidfa**      Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw.  
Deled dy deyrnas.  
Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dydo i ni heddiw ein bara beunyddiol  
a maddau i ni ein dyledion fel y maddeuwn ninnau  
i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg.  
Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniant  
yn oes oesoedd. Amen.

**Arweinydd**      Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas  
yr Ysbryd Glân a fo gyda chwi oll.

**Cynulleidfa**      **Amen.**



and become for all the world worthy lampstands for Your life-giving light.

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Leader**

For You are our Saviour, and to You be glory, dominion and honour,  
now and always and unto the ages of ages.

**Assembly**

**Amen.**

## Hymn

### The Lord's Prayer

**Leader**

Blessed is our Lord Jesus Christ.

**Assembly**

**Amen.**

**Assembly**

**Our Father who art in heaven, hallowed be thy name.  
Thy kingdom come.  
Thy will be done on earth as it is in heaven.  
Give us this day our daily bread  
and forgive us our trespasses as we forgive those who  
trespass against us.  
And lead us not into temptation but deliver us from evil.  
For thine is the kingdom and the power and the glory  
forever and ever. Amen.**

**Leader**

The grace of our Lord Jesus Christ, and the love of God, and the communion of the Holy Spirit be with you all.

**Assembly**

**Amen.**



YR WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL 2026

# ADDOLIAD ECIWMENAIDD

Fersiwn B





Gwasanaeth yn y drefn Uniongred Armenaidd yw fersiwn gwreiddiol (A) y gwasanaeth hwn. Fersiwn diwygiedig (B) yw hwn ar gyfer y rhai y byddai'n well ganddynt wasanaeth y gellir ei addasu fel y dymunir yn unol â'r arfer yn lleol.

## Galwad i Addoli

Bendigedig fyddo enw'r Arglwydd hyd byth, yr enw sydd yn wyneb yr haul.

Bendithir holl genhedloedd y ddaear a bydd yr holl genedlaethau'n moli'r Arglwydd.

Bendigedig yw Arglwydd Dduw Israel, unig gyflawnydd gweithredoedd rhyfeddol. Bendigedig fydd ei enw gogoneddus hyd byth. Llenwir yr holl fyd â'i ogoniant.

**Cynulleidfa**      **Amen! Amen!**

## Emyn (ar thema goleuni)

*Tra byddir yn canu'r emyn, goleuir kannwyll ym mhen blaen y man cyfarfod.*

## Gweddi Agoriadol

O godiad haul yn y dwyrain hyd y machlud yn y gorllewin,  
gan bawb ym mhob lle,  
cyhoedder sancteiddrwydd yr Arglwydd.

Bydded i'r sancteiddrwydd hwnnw ddod fel goleuni i'n plith,  
gan gyfarwyddo ein taith ar hyd llwybrau tangnefedd.

Gan gydgerdded ag angylion tangnefedd,  
bydded i ni gael ein harwain oddi wrth demtasiwn a phechod.

Gan glywed geiriau trugaredd,  
bydded i ni brofi maddeuant, cariad a rhyddid.

Gan wybod grym yr atgyfodiad  
bydded i ni gael ein dyrchafu i'r un goleuni.



The original version of this service (A) is an Armenian Orthodox Service. This version (B) is a revised version for those who would prefer a worship service that can be freely adapted according to local use.

## Call to Worship

May the name of the Lord be blessed forever, whose name is before the sun.

All the nations of the earth will be blessed and all generations will extol the Lord.

Blessed is the Lord God of Israel, the only worker of wondrous deeds, the holy name of His glory is forever blessed. The whole world will be filled with His glory.

**Assembly**                      **Amen! Amen!**

## Hymn (on the theme of light)

*While the hymn is being sung, a candle is lit at the front.*

## Opening Prayer

From sunrise in the east to sunset in the west,  
by all people and in every place,  
may the holiness of the Lord be proclaimed.

May that holiness come as light in our midst,  
guiding our way along pathways of grace.

Walking with the angels of peace,  
may we be led away from temptation and sin.

Hearing words of mercy,  
may we know ourselves forgiven, loved and free.

Knowing the power of the resurrection  
may we find ourselves raised into that same light.

Wedi ein galw i gymdeithas pobl ffyddlon Duw,  
bydded i ni ddod ynghyd mewn tangnefedd.

Tangnefedd a fo gyda chwi  
**A chyda'th ysbryd dithau.**

*Gellir rhannu arwydd o dangnefedd.*

## Darlleniadau o'r Ysgrythur

**Darllenydd 1**      Daw'r darlleniad hwn o Broffwydoliaeth Eseia (58:6-11).

Onid dyma'r dydd ympryd a ddewisais:  
tynnu ymaith rwymau anghyfiawn,  
a llacio clymau'r iau,  
gollwng yn rhydd y rhai a orthrymwyd,  
a dryllio pob iau?  
Onid rhannu dy fara gyda'r newynog,  
a derbyn y tlawd digartref i'th dŷ,  
dilladu'r noeth pan y'i gweli,  
a pheidio ag ymguddio rhag dy deulu dy hun?  
Yna fe ddisgleiria d'oleuni fel y wawr,  
a byddi'n ffynnu mewn iechyd yn fuan;  
bydd dy gyfiawnder yn mynd o'th flaen,  
a gogoniant yr Arglwydd yn dy ddilyn.  
Pan elwi, bydd yr Arglwydd yn ateb,  
a phan waeddi, fe ddywed, 'Dyma fi'.

Os symudi'r gorthrwm ymaith,  
os peidi â chodi bys i gyhuddo ar gam,  
os rhoddi o'th fodd i'r anghenus,  
a diwallu angen y cystuddiol,  
yna cyfyd goleuni i ti o'r tywyllwch,  
a bydd y caddug fel canol dydd.  
Bydd yr Arglwydd yn dy arwain bob amser,  
yn diwallu dy angen mewn cyfnod sych,



Gathered into the community of God's faithful people,  
may we come together in peace.

Peace be with you  
**And with your spirit.**

*A sign of peace may be shared.*

## Scripture Readings

Reader 1

This reading is from the Prophet Isaiah (58:6-11).

Is not this the fast that I choose:  
to loose the bonds of injustice,  
to undo the thongs of the yoke,  
to let the oppressed go free,  
and to break every yoke?

Is it not to share your bread with the hungry,  
and bring the homeless poor into your house;  
when you see the naked, to cover them,  
and not to hide yourself from your own kin?  
Then your light shall break forth like the dawn,  
and your healing shall spring up quickly;  
your vindicator shall go before you,  
the glory of the LORD shall be your rearguard.  
Then you shall call, and the LORD will answer;  
you shall cry for help, and he will say, Here I am.

If you remove the yoke from among you,  
the pointing of the finger, the speaking of evil,  
if you offer your food to the hungry  
and satisfy the needs of the afflicted,  
then your light shall rise in the darkness  
and your gloom be like the noonday.  
The LORD will guide you continually,  
and satisfy your needs in parched places,



ac yn cryfhau dy esgyrn;  
yna byddi fel gardd ddyfradwy,  
ac fel ffynnon ddŵr  
a'i dyfroedd heb ballu.

*Gellir canu emyn neu gân.*

## Darllenydd 2

Daw'r darlleniad hwn o Lythyr yr Apostol Paul at yr Effesiaid (4:1-13).

Yr wyf fi, felly, sy'n garcharor er mwyn yr Arglwydd, yn eich annog i fyw yn deilwng o'r alwad a gawsoch. Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad. Ymrowch i gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi. Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn eich galwad; un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad i bawb, yr hwn sydd goruwch pawb, a thrwy bawb, ac ym mhawb.

Ond i bob un ohonom rhoddwyd gras, ei ran o rodd Crist. Am hynny y mae'r Ysgrythur yn dweud:

'Esgynnodd i'r uchelder, gan arwain ei garcharorion  
yn gaeth;  
rhoddodd roddion i bobl.'

Beth yw ystyr 'esgynnodd'? Onid yw'n golygu ei fod wedi disgyn hefyd i barthau isaf y ddaear? Yr un a ddisgynnodd yw'r un a esgynnodd hefyd ymhell uwchlaw'r nefoedd i gyd, i lenwi'r holl greadigaeth. A dyma'i roddion: rhai i fod yn apostolion, rhai yn broffwydi, rhai yn efengylwyr, rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon, i gymhwyso'r saint i waith gweinidogaeth, i adeiladu corff Crist. Felly y cyrhaeddwn oll hyd at yr undod a berthyn i'r ffydd ac i adnabyddiaeth o Fab Duw. Y nod yw dynoliaeth lawn dwf, a'r mesur yw'r aeddfedrwydd sy'n perthyn i gyflawnder Crist.



and make your bones strong;  
and you shall be like a watered garden,  
like a spring of water,  
whose waters never fail.

*A hymn/song may be sung.*

## Reader 2

This reading is from the Letter of the Apostle Paul to the Ephesians (4:1-13).

I, therefore, the prisoner in the Lord, beg you to lead a life worthy of the calling to which you have been called, with all humility and gentleness, with patience, bearing with one another in love, making every effort to maintain the unity of the Spirit in the bond of peace. There is one body and one Spirit, just as you were called to the one hope of your calling, one Lord, one faith, one baptism, one God and Father of all, who is above all and through all and in all.

But each of us was given grace according to the measure of Christ's gift. Therefore it is said,

‘When he ascended on high he made captivity itself  
a captive;  
he gave gifts to his people.’

(When it says, ‘He ascended,’ what does it mean but that he had also descended into the lower parts of the earth? He who descended is the same one who ascended far above all the heavens, so that he might fill all things.) The gifts he gave were that some would be apostles, some prophets, some evangelists, some pastors and teachers, to equip the saints for the work of ministry, for building up the body of Christ, until all of us come to the unity of the faith and of the knowledge of the Son of God, to maturity, to the measure of the full stature of Christ.

Darllenydd

Tangnefedd a fo i bawb.

**Cynulleidfa**

**A chyda'th ysbryd dithau.**

Darllenydd

Gwrandawn yn astud ar efengyl sanctaidd Iesu Grist yn ôl Ioan (12:31-36).

**Côr neu  
Godwr Canu**

**Gogoniant i ti, yr Arglwydd ein Duw.**

[Meddai Iesu wrth y dorf:] ‘Dyma awr barnu’r byd hwn; yn awr y mae tywysog y byd hwn i gael ei fwrw allan. A minnau, os caf fy nyrchafu oddi ar y ddaear, fe dynnaf bawb ataf fy hun.’ Dywedodd hyn i ddangos beth fyddai dull y farwolaeth oedd yn ei aros. Yna atebodd y dyrfa ef: ‘Yr ydym ni wedi dysgu o’r Gyfraith fod y Meseia i aros am byth. Sut yr wyt ti’n dweud, felly, bod yn rhaid i Fab y Dyn gael ei ddyrchafu? Pwy yw’r Mab y Dyn yma?’ Dywedodd Iesu wrthynt, ‘Am ychydig amser eto y bydd y goleuni yn eich plith. Rhodiwch tra bo’r goleuni gennych, rhag i’r tywyllwch eich goddiweddyd. Nid yw’r sawl sy’n rhodio yn y tywyllwch yn gwybod lle y mae’n mynd. Tra bo’r goleuni gennych, credwch yn y goleuni, ac felly plant y goleuni fyddwch.

**Côr neu  
Godwr Canu /  
Cynulleidfa**

**Gogoniant i ti, ein Harglwydd Iesu Grist.**

## Pregeth/Homili

### Salm Ymatebol (Salm 97, wedi’i haddasu)

*Tra adroddir neu cenir y salm, dosberthir canhwyllau i’r bobl..*

Y mae’r Arglwydd yn frenin; gorfoledded y ddaear;  
bydded ynysoedd lawer yn llawen.

Y mae cymylau a thywyllwch o’i amgylch;  
cyfiawnder a barn yn sylfaen i’w orsedd.



Reader Peace to all.

**Assembly** **And with your spirit.**

Reader Let us be attentive to the holy Gospel of Jesus Christ according to John (12:31-36).

**Choir or Cantor** **Glory to You, Lord our God.**

[Jesus said to the crowd:] ‘Now is the judgement of this world; now the ruler of this world will be driven out. And I, when I am lifted up from the earth, will draw all people to myself.’ He said this to indicate the kind of death he was to die. The crowd answered him, ‘We have heard from the law that the Messiah remains for ever. How can you say that the Son of Man must be lifted up? Who is this Son of Man?’ Jesus said to them, ‘The light is with you for a little longer. Walk while you have the light, so that the darkness may not overtake you. If you walk in the darkness, you do not know where you are going. While you have the light, believe in the light, so that you may become children of light.’

**Choir or Cantor/** **Glory to You, our Lord Jesus Christ.**

**Assembly**

## Sermon/Homily

## Responsorial Psalm (Psalm 97 adapted)

*As the psalm is being recited/chanted, candles are distributed to the people.*

The LORD is king! Let the earth rejoice;  
let the many coastlands be glad!  
Clouds and thick darkness are all around him;  
righteousness and justice are the foundation of his throne.



**Mae ein llygaid yn troi atat ti, o Dduw.  
Yn dy drugaredd, clyw ein gweddïau.**

Y mae ei felst yn goleuo'r byd,  
a'r ddaear yn gweld ac yn crynu.

Y mae'r nefoedd yn cyhoeddi ei gyfiawnder,  
a'r holl bobloedd yn gweld ei ogoniant.

**Mae ein llygaid yn troi atat ti, o Dduw.  
Yn dy drugaredd, clyw ein gweddïau.**

Clywodd Seion a llawenhau,  
ac yr oedd trefi Jwda yn gorfoleddu,  
o achos dy farnedigaethau, o Arglwydd.

Oherwydd yr wyt ti, Arglwydd, yn oruchaf dros yr holl ddaear;  
yr wyt wedi dy ddyrchafu'n uwch o lawer na'r holl dduwiau.

**Mae ein llygaid yn troi atat ti, o Dduw.  
Yn dy drugaredd, clyw ein gweddïau.**

Heuwyd goleuni ar y cyfiawn,  
a llawenydd ar yr uniawn o galon.

Llawenhewch yn yr Arglwydd, rai cyfiawn,  
a moliannwch ei enw sanctaidd.

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân,  
yn awr a phob amser a hyd yn oes oesoedd. Amen.**

## Emyn

*Tra cenir yr emyn, goleuir canhwyllau o'r gannwyll ganolog a rhennir y goleuni o  
un i un â phawb.*



**Our eyes turn to You, O God.  
In Your mercy, hear our prayers.**

His lightnings light up the world;  
the earth sees and trembles.

The heavens proclaim his righteousness,  
and all the peoples behold his glory.

**Our eyes turn to You, O God.  
In Your mercy, hear our prayers.**

Zion hears and is glad,  
and the towns of Judah rejoice,  
because of your judgements, O God.

For you, LORD, are most high over all the earth;  
you are exalted far above all gods.

**Our eyes turn to You, O God.  
In Your mercy, hear our prayers.**

Light dawns for the righteous  
and joy for the upright in heart.

Rejoice in the LORD, O you righteous,  
and give thanks to his holy name!

**Glory to the Father, and to the Son and to the Holy Spirit,  
now and always and unto the ages of ages. Amen.**

## Hymn

*While the hymn is being sung, candles are lit from the central candle and the candles are lit from person to person.*



# Y Credo

## Arweinydd

Yng ngloywder goleuni Doethineb Crist,  
cyffeswn ynghyd ein ffydd gyffredin.

## Cynulleidfa

Credwn yn un Duw,  
y Tad hollalluog,  
gwneuthurwr nef a daear,  
a phob peth gweledig ac anweledig.  
Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,  
unig Fab Duw,  
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,  
Llewyrch o Lewyrch,  
gwir Dduw o wir Dduw,  
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,  
yn un hanfod â'r Tad,  
a thrwyddo ef y gwnaed pob peth:  
yr hwn er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth  
a ddisgynnodd o'r nefoedd,  
ac a wnaed yn gnawd trwy'r Ysbryd Glân  
o Fair Forwyn,  
ac a wnaethpwyd yn ddyn,  
ac a groeshoeliwyd hefyd drosom dan Pontius Pilat.  
Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.  
Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,  
ac esgynnodd i'r nef,  
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.  
A daw drachefn mewn gogoniant  
i farnu'r byw a'r meirw:  
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.  
Credwn yn yr Ysbryd Glân,  
yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,  
sy'n deillio o'r Tad,



# The Creed

Leader

Bathed in the light of the Wisdom of Christ,  
together, let us confess our common faith.

Assembly

We believe in one God,  
the Father, the Almighty,  
maker of heaven and earth,  
of all that is, seen and unseen.  
We believe in one Lord, Jesus Christ,  
the only Son of God,  
eternally begotten of the Father,  
Light from Light,  
true God from true God,  
begotten, not made;  
of one Being with the Father.  
Through him all things were made.  
For us all, and for our salvation  
he came down from heaven;  
and was incarnate of the Holy Spirit and the virgin Mary,  
and was made human.  
For our sake he was crucified under Pontius Pilate;  
he suffered and was buried.  
On the third day he rose from the dead in accordance with  
the scriptures.  
He ascended to heaven  
and is seated at the right hand of the Father.  
He will come again in glory  
to judge the living and the dead  
and his kingdom will have no end.  
We believe in the Holy Spirit,  
the Lord, the giver of life,  
who proceeds from the Father.



yr hwn gyda'r Tad a'r Mab,  
a gydaddolir ac a gydogoneddir,  
ac a lefarodd trwy'r proffwydi.  
Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.  
Cydnabyddwn un Bedydd er maddeuant pechodau.  
A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,  
a bywyd y byd sydd i ddyfod. Amen.

## Ymbiliau

Cyflwynwn yn awr ein gweddïau dros ein byd, gan gofio'n arbennig pobl Armenia a phobl Armenaidd a wasgarwyd o ardal Artsakh sydd dan reolaeth Azerbaijan.

### Arweinydd

Mewn tangnefedd, ymbiliwn ar yr Arglwydd.

Arglwydd Iesu Grist, graslon a hollalluog, Fab Duw, ti yw'r gwir Oleuni, a fwriodd allan dywyllwch pechod, ac a ddisgleiriodd yn ein calonnau â llawenydd a gobaith dy Deyrnas dragwyddol.

### Cynulleidfa

**Arglwydd, trugarha.**

### Arweinydd

Arglwydd cariadus, derbynia weddïau dy holl bobl ffyddlon ledled y byd, sy'n galw arnat ti ag un meddwl, un llais ac un galon. Trwy dy ddisgybl annwyl Ioan, addewaist, os ydym yn cerdded yn dy oleuni, y byddwn yn mwynhau cymundeb â'n gilydd, ac y bydd dy waed gwerthfawr yn ein glanhau o bob pechod. Tyrd â'r cymundeb bendigedig hwnnw i ni, o Waredwr!

### Cynulleidfa

**Arglwydd, trugarha.**

### Arweinydd

Caniatâ i ni dangnefedd, o Arglwydd cariadus, a dilea felltith trais oddi ar wyneb y ddaear. Tro galonnau pawb sy'n rhyfela a chyffwrdd â chlwyfau pawb sy'n dioddef oherwydd rhyfel. Cysura'r holl garcharorion rhyfel a dwg hwy adref ar fyrder.



Who, with the Father and the Son, is worshipped  
and glorified,  
who has spoken through the Prophets.  
We believe in one, holy, catholic and apostolic Church.  
We confess one baptism for the forgiveness of sins.  
We look forward to the resurrection of the dead,  
and to life in the age to come. Amen.

## Prayers of Intercession

We come now to offer our prayers for our world, especially commending the Armenian people and the displaced Armenian people of the Artsakh region under Azerbaijan control.

**Leader** In peace, let us beseech the Lord.

Gracious and almighty Lord Jesus Christ, Son of God, You are the true Light, who has cast out the darkness of sin and shone into our hearts the joy and hope of Your eternal Kingdom.

**Assembly** **Lord, have mercy.**

**Leader** Loving Lord, accept the prayers of all Your faithful people throughout the world, who call out to You with one mind, one voice and one heart. Through Your beloved disciple John, You promised that if we walk in Your light, then we will have communion with one another, and Your precious blood will cleanse us of all sin. Bring us that blessed communion, O Saviour!

**Assembly** **Lord, have mercy.**

**Leader** Grant us peace, O Loving Lord, and remove the scourge of violence from the face of the earth. Change the hearts of all who make war. Touch the wounds of all who are afflicted by conflict. Comfort all prisoners of war and speedily bring them home.



Bydded i oleuni dy gariad ddisgleirio yn holl fannau tywyll  
ein byd a phrysurâ'r dydd y gall yr holl bobloedd fyw mewn  
heddwch ar sylfaen cyfiawnder.

**Cynulleidfa**

**Arglwydd, trugarha.**

**Arweinydd**

Arglwydd Iesu Grist, ein lloches a'n cysgod, edrych yn  
dosturiol ar ffoaduriaid ledled y byd, y rhai sy'n dioddef ing  
dadleoli a cholli eu cartrefi. Ysgoga ni i wneud ein cymundeb  
â thi, â hwy ac â'n gilydd yn amlwg, trwy gynnig lletygarwch  
a chymorth cariadus.

**Cynulleidfa**

**Arglwydd, trugarha.**

**Arweinydd**

Grist ein Gwaredwr, gweddiwn dros bobl Armenia ac  
Artsakh, a'u cydwladwyr ledled y byd, a drodd amser maith  
yn ôl at dy oleuni trwy bregethu yr Apostol Thadeus a  
thystiolaeth wyrthiol Sant Gregor yr Ymoleuwr.

**Cynulleidfa**

**Arglwydd, trugarha.**

**Arweinydd**

Llewyrcha oleuni dy gyfiawnder a'th ddoethineb ar dy holl  
greaduriaid. Gwna ni'n blant y goleuni a phlant y dydd, fel y  
gallwn bob amser fyw ein bywydau o barch tuag atat, a dod,  
ar gyfer yr holl fyd, yn rhai sy'n adlewyrchu'n deilwng dy  
oleuni bywiol.

**Cynulleidfa**

**Arglwydd, trugarha.**

**Arweinydd**

Oherwydd ti yw ein Gwaredwr, ac i ti y bo'r gogoniant,  
yr awdurdod a'r anrhydedd, yn awr a phob amser a hyd yn  
oes oesoedd.

**Cynulleidfa**

**Amen.**



Let the light of Your love shine in all the dark places of our world, and hasten the day when all peoples may dwell in peace with justice.

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Leader**

O Refuge and Shelter, Lord Jesus Christ, look with compassion on refugees throughout the world, who suffer the agony of displacement and the loss of their homes. Move us to manifest our communion with You, with them and with each other through gestures of hospitality and loving help.

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Leader**

O Christ, our Saviour, we pray for the people of Armenia and Artsakh, and their kindred throughout the world, who long ago turned to Your light through the preaching of the Apostle Thaddeus and the miraculous witness of St Gregory the Illuminator.

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Leader**

Shine the light of Your righteousness and wisdom on all Your creatures. Make us children of light and children of the day, so that we may always live our lives reverently, and become for all the world worthy lampstands for Your life-giving light.

**Assembly**

**Lord, have mercy.**

**Leader**

For You are our Saviour, and to You be glory, dominion and honour,  
now and always and unto the ages of ages.

**Assembly**

**Amen.**



## Gweddi'r Arglwydd

Arweinydd                      Bendigedig yw ein Harglwydd Iesu Grist.

Cynulleidfa                    Amen.

Cynulleidfa                    Ein Tad... (*yn unol â'r arfer a'r dewis yn lleol*)

## Emyn

## Gweddi i gloi

Darllenydd                    Arglwydd grasol, Dduw pawb,  
tywysydd y colledig, goleuni'r rhai sydd yn y tywyllwch.  
Mae ein llygaid yn troi atat ti; clyw ein gweddïau.  
Bydded i haul dy ogoniant ddisgleirio, gan roi bywyd a  
goleuni i bawb, o'r Dwyrain i'r Gorllewin, ac o'r Gogledd i'r  
De. Bydded i belydrau gwawr dy wanwyn tragwyddol ddeffro  
ni sy'n disgwyl dy ddyfodiad.

Iesu Grist, y Golau o'r Goleuni, triga ynom ni, sydd wedi dod  
ynghyd i addoli dy enw sanctaidd a gwerthfawr. Bydded i'th  
ddisgleirdeb bywiol danio ynom gariad dyfnach at ein gilydd.  
Bydded i'th oleuni tanbaid ennyn ynom undod dyfnach yn  
feunyddiol. Fel blodau amrywiol yng ngardd dy Deyrnas,  
bydded i'th loywyder dwyfol ein hysbrydoli i gyd-flodeuo. Ac  
felly, oll yn un, bydded i ni bob amser dy foli a'th ogoneddu,  
ynghyd â'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn awr a hyd yn oes oesoedd.

*Addaswyd o eiriau Sant Gregor o Narek*

Cynulleidfa                    Amen! Amen! Amen!



# The Lord's Prayer

**Leader** Blessed is our Lord Jesus Christ.

**Assembly** Amen.

**Assembly** **Our Father...** *(according to local practice and preference)*

## Hymn

## Final Prayer

**Reader** Gracious Lord, God of all,  
Guide for the lost, Light for those in darkness.  
Our eyes turn to You; hear our prayers.  
May the sun of Your glory shine forth, giving life and light to  
all, from the east to the west, and from the north to the  
south. Let the morning rays of Your eternal spring awaken us  
who await Your coming.

O Jesus Christ, Light from the Light, dwell within us, who  
have come together to worship Your holy and precious  
name. Let Your life-giving radiance kindle within us a deeper  
love for one another. May Your brilliant light stir us to ever  
more flourishing unity. Like diverse flowers in the  
garden of Your Kingdom, may Your divine brilliance  
cause us to bloom in harmony. And so, all as one,  
may we joyfully praise and glorify You, and the  
Father and the Holy Spirit, now and always and unto  
the ages of ages.

*Adapted from St Gregory of Narek*

**Assembly** Amen! Amen! Amen!

# YR WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL 2026



Daw'r dyfyniadau Ysgrythurol o'r Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig, Hawlfraint © 2004 gan Gymdeithas y Beibl. Defnyddiwyd gyda chaniatâd Cymdeithas y Beibl. Cedwir pob hawl ledled y byd.

**Hawlfraint y ffotograffau:**

Llun clawr ar gyfer y ddau wasanaeth: [iStock.com/YorVen](https://www.istock.com/YorVen)

t30 a thrwy gydol y gwasanaethau: [iStock.com/takepicsforfun](https://www.istock.com/takepicsforfun)

Bible verses from the New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition, copyright 1989, 1995, Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission. All rights reserved.

**Photo copyrights:**

Cover photo for both worship services: [iStock.com/YorVen](https://www.istock.com/YorVen)

P.30 and throughout the worship services: [iStock.com/takepicsforfun](https://www.istock.com/takepicsforfun)

---

## DATES

The Week of Prayer for Christian Unity is traditionally observed from 18th to 25th January (the octave of St Peter and St Paul). However, some groups choose other times of the year, particularly around Pentecost which is a symbolic date for the unity of the Church. Do make your own decision, taking local factors into account. To allow for use at any time in the year, the Days material uses the notation 1-8.

## ORDER OF SERVICE

This year we have provided a choice of two worship services. **Version A** is from the Armenian Apostolic Church and is an invitation to worship within the Orthodox tradition. **Version B** is a revised version for those who would prefer a worship service that can be freely adapted according to local use.

The two orders of service in the centre of the pamphlet can be pulled out and photocopied if you wish. Alternatively, all resources can be downloaded from the CTBI website and you are welcome to further edit or adapt them for local use. Please acknowledge the source of material as Churches Together in Britain and Ireland, Week of Prayer for Christian Unity resources.

## CHRISTIAN UNITY WALL

Please add details and photos of your events, prayers and messages of unity to the Christian unity 'wall' at [weekofprayer.org](http://weekofprayer.org) by posting to Twitter using the #wpcuwall hashtag. Posts appear automatically (after a slight delay).

## PHOTO COPYRIGHTS

Cover photo, p23 and p55: [iStock.com/YorVen](https://www.iStock.com/YorVen)

Armenian Khachkar (cross), p10, 12 and cross pattern throughout the pamphlet: [iStock.com/iSidhe](https://www.iStock.com/iSidhe)

P2 and 3: [iStock.com/Ozbalci](https://www.iStock.com/Ozbalci)

P4 and 5: [iStock.com/VahanN](https://www.iStock.com/VahanN)

P48 and 49: [iStock.com/1255k](https://www.iStock.com/1255k)

P54 and throughout the worship services: [iStock.com/takepicsforfun](https://www.iStock.com/takepicsforfun)

P74 and back cover: [iStock.com/Anna\\_Anikina](https://www.iStock.com/Anna_Anikina).

# Diwrnod 4

## Ein galw i un gobaith

### Adnod ar gyfer y Diwrnod

‘Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw’r gobaith sy’n ymhlyg yn eich galwad.’ (Effesiaid 4:4)

### Darnau ychwanegol o’r Beibl

Deuteronomium 6:4-9

Salm 24:1-6

Ioan 17:20-26

### Sylwadau

Yn y byd sydd ohoni, mae ‘rhwygo,’ ‘gwahanu,’ ‘ynysu’ a ‘gofalu amdanaf fy hun’ ymhlith y geiriau allweddol sy’n darlunio ein diwylliant. Nid felly’r Apostol Paul sydd, yn Effesiaid 4:4, yn edrych ar y byd mewn ffordd wahanol. Mae’r ffordd honno’n un anodd a heriol, ac mae’n gofyn dycnwch, gwaith caled a gras, grym a chynhaliaeth Ysbryd Duw. Pam? Oherwydd bod Duw yn dyheu am i ni ddarganfod cyfoeth disglair, amlochrog, undod unigryw yr Eglwys, undod a wnaed yn bosibl gan Iesu. Dyma undod sydd am oresgyn pob ffin genedlaethol a diwylliannol. Wrth i ni fentro ynghyd ein bywydau, a’n hiachawdwriaeth, yn nwylo estynedig y Crist atgyfodedig, rydym yn

edrych tua’r dyfodol. Beth a welwn? Gobaith syfrdanol i ni oll ynghyd yn ailddyfodiad ein Harglwydd, yn arwain at sefydlu nef newydd a daear newydd lle paratowyd lle i bob un ohonom. Trysor amhrisiadwy yw undod, y gallwn ei brofi heddiw, er yn anghyflawn, sydd yn arwydd grymus yn ein byd o’n gobaith i’r dyfodol.

### Cwestiynau

**Personol:** Beth sydd raid i chi ei ildio er mwyn cofleidio undod holl bobl Dduw?

**Lleol:** Beth yw’r heriau mwyaf yn eich ardal sy’n bygwth tanseilio undod a lles pawb?

**Byd-eang:** A yw undod eglwysig i chi’n goresgyn pob ffin genedlaethol a diwylliannol?

## Myfyrdod

### Gwir Obaith

Nid glöyn byw mo gobaith,  
yn ddi-hid hedfan,  
ar frys i baru,  
yn ymladd amser.

Mae'n fwy na'r optimistiaeth  
sy'n mynd a dod  
rhwng hindda a drycin.

Nid dedwydwch diddiwedd mo  
gobaith,  
sydd angen gwaith i'w gynnal  
hyd gwywo nerth.

Gemwaith yw gobaith,  
gemwaith rhyfeddod,  
yn rhaeadru goleuni,  
bod byw sy'n teyrnasu  
ynom a thu hwnt,  
heb ffiniau.

## Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,  
daethost â ni ynghyd yn ein holl  
amrywiaeth,  
fel teulu ac Eglwys.  
Yn wyneb cymaint o sefyllfaoedd  
yn y byd,  
lle mae gobaith wedi ildio i anobaith  
a lle clwyfwyd calonnau a'u gwagio  
gan siomedigaeth,  
adnewyddda ein nerth ac una ni.  
Cynorthwya ni i ledaenu dy obaith lle  
bynnag y byddwn.  
Ti yw'r gwir Oleuni,  
sy'n bwrw allan dywyllwch pechod,  
tristwch a thrallod,  
sy'n disgleirio i'n calonnau gan  
adlewyrchu'n llawenydd  
a gwir obaith dy gariad tragwyddol  
tuag at bawb.  
Amen.

## Ewch a Gnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Ewch a rhannwch eich profiad o Dduw ag un unigolyn arall.

**Lleol:** Ewch allan gyda grŵp o'ch eglwys a rhannu newyddion da Duw yn eich cymuned.

**Byd-eang:** Dewiswch un o ymgyrchoedd Cymorth Cristnogol neu CAFOD a'i hyrwyddo yn eich eglwys, eich plwyf neu eich grŵp eciwmenaidd lleol.

# Day 4

## Called to one hope

### Verse for the Day

‘There is one body and one Spirit, just as you were called to the one hope of your calling’ (Ephesians 4:4).

### Additional Scripture Passages

Deuteronomy 6:4-9

Psalms 24:1-6

John 17:20-26

### Commentary

In our world, ‘fracture’, ‘separation’, ‘isolation’ and ‘looking after myself’ are some key words that describe our culture. Not so the Apostle Paul who, in Ephesians 4:4, looks at the world with different glasses. His worldview is difficult and demanding, requiring determination, work and the grace, empowerment and nurture of the Spirit of God. Why? Because God longs for us to discover the multi-faceted, bejewelled brilliance of the distinctive unity in the Church made possible by Jesus. This is a unity that seeks to transcend all national and cultural boundaries. As together we place our lives, our very salvation, in the outstretched hands of the risen Christ, we look forward. What do we

see? The breathtaking, shared hope of the second coming of our Lord, culminating in a new heaven and a new earth within which we will each have a place prepared. Unity is a jewel beyond price, a lived reality while incomplete, as it is the compelling herald in our world of our future hope.

### Questions

**Personal:** What must you lay down in order to embrace the unity of all God’s people?

**Local:** What are the most challenging issues facing your locality that threaten to undermine the unity and well-being of all?

**Global:** Does your church unity transcend all national and cultural boundaries?

## Reflection

### True Hope

Hope is not a butterfly,  
careless,  
compulsively fluttering,  
anxiously mating,  
time spare.

Hope is more than optimism  
that yoyos like the  
weather mercury.

Hope is not relentless positivity,  
requiring endless,  
exhausting,  
bolstering.

Hope is bejewelled  
with wonder,  
cascading with light,  
and reigns in Personhood  
within,  
without,  
unboundaried.

## Prayer

Lord Jesus Christ,  
You bring us together in all our  
diversity,  
as family and church.  
In the face of so many situations  
on earth,  
where hope has given way to despair  
and hearts are wounded and emptied  
by disappointment,  
renew our strength and unify us.  
Help us to share Your hope wherever  
we find ourselves.  
You are the true Light,  
who casts out the darkness of sin,  
despair and brokenness,  
who shines into our hearts, releasing  
the joy  
and the true hope of Your eternal love  
for all.  
Amen.

## Go and do

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Go and share your experience of God with one person.

**Local:** Go out with a group from your church and share the good news of God in your community.

**Global:** Choose one of the campaigns by Christian Aid or CAFOD and promote them in your church, parish or local ecumenical group.

# Diwrnod 5

## Un ffydd, un bedydd

### Adnod ar gyfer y Diwrnod

‘Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd.’ (Effesiaid 4:5)

### Darnau ychwanegol o’r Beibl

Sechareia 14:6-9

Salm 100

Mathew 28:16-20

gwahaniaethau, gan atgyfnerthu’r rhwymiad sy’n ein huno oll fel Cristnogion.

### Sylwadau

Yn Effesiaid 4:5, mae’r Apostol Paul yn pwysleisio bedydd fel y weithred sy’n arwyddo derbyn unigolion i gymdeithas yr Eglwys, gan gadarnhau eu hymrwymiad cyffredin i’r un Arglwydd. Mae bedydd yn dathlu hunaniaeth gorfforol yr Eglwys gan ein bod oll yn un yng Nghorff yr Arglwydd. Er y gall aelodau ddod o amryfal gefndiroedd, mae eu hundod mewn ffydd, a gyhoeddir mewn bedydd, yn rhagori ar bob rhaniad. Trwy ganolbwyntio ar yr elfennau hyn sy’n ein huno, gall yr Eglwys ddathlu ei hamrywiaeth ac eto barhau i fod yn gadarn unedig. Mae hyn yn ein herio i flaenoriaethu ein hunaniaeth gyffredin yng Nghrist uwchlaw ein

### Myfyrdod

Pererinion,

p’run a ydym yn cydnabod ein bod yn rhai ai peidio, cyraeddasom y ffynnon.

Ac wrth i ni brofi’i dyfroedd byddwn oll, deall neu beidio, yn ymdrochi yn ei hiachâd, beth bynnag fo’n clwy.

Rywsut,

rywbryd,

rywle, bydd y dŵr bywiol yn uno.

## Gweddi

Ysbryd Duw, a'r gwir Dduw,  
a ddisgynnaist ar yr Iorddonen ac a  
lenwaist yr oruwchystafell;  
a'n goleuodd drwy fedydd dŵr  
y bywyd,  
pechasom yn erbyn y nef ac o'th  
flaen dithau.

Pura ni drachefn drwy dy dân dwyfol,  
fel y puraist dy Apostolion â  
thafodau tân.

Trugarha wrthym ninnau a'th  
holl greaduriaid.  
Amen.

*Sant Nerses y Graslon (addaswyd)*

## Cwestiynau

**Personol:** Beth mae myfyrio ynghylch  
eich bedydd neu eich derbyn i'r Ffydd  
Gristnogol yn ei olygu i chi heddiw?

**Lleol:** Sut mae eich cymuned eglwysig  
yn dathlu undod yr holl greadigaeth o  
fewn cyd-destun lleol?

**Byd-eang:** O ystyried y ffyrdd  
amrywiol o ddehongli bedydd ymhlith  
Cristnogion, sut gall y sagrafen hon  
barhau i fod yn fynegiant o undod?

## Ewch a Gnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Cadwch ddyddiadur beunyddiol dros gyfnod o wythnos (neu saith  
diwrnod dros gyfnod hirach), gan fyfyrio ar bob un o'r diwrnodau ynghylch  
ystyr eich bedydd neu eich derbyn i'r Ffydd Gristnogol.

**Lleol:** Trafodwch pa fentrau cydweithredol y gallai'r eglwysi yn eich cymuned eu  
cyflawni i ddathlu eich ffydd gyffredin yn Iesu Grist.

**Byd-eang:** Trefnwch ddigwyddiad sy'n dathlu undod byd-eang yr eglwysi  
â'r greadigaeth.

# Day 5

## One faith, one baptism

### Verse for the Day

‘One Lord, one faith, one baptism’ (Ephesians 4:5).

### Additional Scripture Passages

Zechariah 14:6-9

Psalms 100

Matthew 28:16-20

### Commentary

In Ephesians 4:5, the Apostle Paul emphasises the act of baptism as marking the entrance of individuals into the Church’s fellowship, affirming their shared commitment to the same Lord. In baptism, the collective identity of the Church is celebrated, since we are one in the Body of the Lord. While members may come from varied backgrounds, their unity in faith as declared in baptism transcends all divisions. By focusing on these unifying elements, the Church can celebrate its diversity while remaining steadfastly united. This challenges us to prioritise our shared identity in Christ over our differences, reinforcing the bond that unites all Christians.

### Reflection

Pilgrims,

whether we know ourselves as that  
or not,  
we’ve reached the well.

And as we test its waters  
we all will, know it or not, engift  
its healing,  
whatever our ailment.

Somehow,

whenever,

wherever,  
the living water unites.

## Prayer

Spirit of God, and true God,  
who descended on the River Jordan  
and entered into the upper room;  
who enlightened us by the baptism of  
the water of life,  
we have sinned against heaven and  
before You.

Purify us again with Your divine fire,  
as You did the Apostles with  
fiery tongues.

Have mercy on us and all  
Your creatures.  
Amen.

*St Nersess the Gracious (adapted)*

## Questions

**Personal:** What does reflecting on your own baptism or Christian initiation mean for you today?

**Local:** How does your church community celebrate the unity of all creation within a local context?

**Global:** Given the diverse understanding of baptism among Christians, how can this sacrament still be an expression of unity?

## Go and do

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Keep a journal for a week (or for seven days spread out over a period of time), reflecting each day on the meaning of your baptism or Christian initiation.

**Local:** Discuss what collaborative initiatives the churches in your community could undertake to celebrate your shared faith in Jesus Christ.

**Global:** Organise an event celebrating the global unity of the churches with creation.

# Diwrnod 6

## Un Duw dros bawb

### Adnod ar gyfer y Diwrnod

‘Un Duw a Thad i bawb, yr hwn sydd goruwch pawb, a thrwy bawb, ac ym mhawb.’ (Effesiaid 4:6)

### Darnau ychwanegol o’r Beibl

1 Brenhinoedd 8:56-60

Salm 148:7-13

Mathew 5:44-48

### Sylwadau

Mae Paul yn pwysleisio undod llwyr Duw, gan ddatgan bod Duw ‘goruwch pawb, a thrwy bawb, ac ym mhawb’. Yr un Duw a wnaeth y byd a greodd fodau dynol ac mae’n caru pob un ohonom ac yn ein hadnabod yn ôl ein henwau. Dyma’r Duw a sefydlodd berthynas gyfamodol â’i bobl, gan eu galw i’w addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Dyma’r Duw sy’n rhoi dyfodol i ni y tu hwnt i farwolaeth, gan addo bywyd tragwyddol a gobaith nef newydd a daear newydd. Mae’r stori unigryw hon yn dechrau ac yn diweddu gyda chariad, gwasanaeth ac ymroddiad. Mae undod yn mynegi natur Duw ac yn gwneud yr anweledig yn weladwy i bawb, gan ailddiffinio gwir rym trwy ostyngaidrwydd,

cariad a dioddefaint. Bydded i ni geisio’r Duw byw a chaniatáu i Dduw ein meddiannu er cyflawni’r dibenion dwyfol yn y byd hwn.

### Myfyrdod

Wrth gerdded i mewn i’r oriel, ar y wal bellaf rydych yn gweld llun trawiadol o haid o eliffantod yng ngwastatir Affrica. Mae’r grŵp o anifeiliaid wedi ymgasglu o gwmpas pwll dŵr mawr, dan gysgod coeden eang, ar gefndir wybren las, las ddiddiwedd. Rydych chi’n camu ymhellach i’r oriel. Rydych yn sylwi ar eliffant bach yn gorweddian yn y llaid dyfrllyd coch, gyda thrwnc tyner ei fam yn gorffwys ar ei ystlys. O fynd ychydig yn agosach, fe welwch ddau fwnci yn y goeden. Yn agosach eto rydych chi’n sylweddoli nad un llun sydd

## Cwestiynau

**Personol:** Sut ydym i ddeall Duw fel presenoldeb cariadus yn ein bywydau?

**Lleol:** Pwy yn ein cymuned allwn ni eu hanrhydeddu â thynerwch a chariad?

**Byd-eang:** Sut ydym yn adnabod presenoldeb cariadus Duw yn y byd?

yna, ond llawer – mosaig ydyw. O nesáu'n agosach fyth daw'n amlwg mai portreadau o unigolion dynol yw pob un o'r darnau llai. Rydych chi'n sylweddoli mai darluniau bach, bach sydd wedi creu'r darlun anferth, rhyfeddol, eang o gyfoeth bywyd gwyllt. Undod, amrywiaeth, gweledigaeth, yn anhygoel a syfrdanol o brydferth. Grym dychymyg yr Arlunydd!  
Yr Eglwys unedig yw'r mosaig sydd wrth fodd Duw.

## Gweddi

Dduw cariadus, fe'th addolwn di fel  
ein Creawdwr,  
am dy bresenoldeb yn y nef y tu hwnt  
i eiriau  
a'th bresenoldeb ar y ddaear y tu hwnt  
i'n deall.  
Trwy dy Fab Iesu Grist, ymollyngwn  
i'th ofal tyner,  
ti ddechreuad a chyflawniad popeth.  
Gogoniant hyd byth i ti,  
Dduw ein Tad, gyda'r Mab  
a'r Ysbryd Glân.  
Amen.

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Meddyliwch am ffyrdd o fynegi cariad Duw yn ymarferol tuag at gymydog.

**Lleol:** Meddyliwch am ffyrdd o anrhydeddu Corff Crist, yr ydym oll yn rhan ohono.

**Byd-eang:** Gan ddefnyddio map o'r byd, trefnwch i weddio gydag eraill dros y byd cyfan am saith diwrnod.

# Day 6

## One God over all

### Verse for the Day

‘One God and Father of all, who is above all and through all and in all’ (Ephesians 4:6)

### Additional Scripture Passages

1 Kings 8:56-60

Psalms 148:7-13

Matthew 5:44-48

### Commentary

Paul emphasises the profound oneness of God, declaring that God is ‘above all and through all and in all’. The same God who made the world crafted human beings and loves and knows each of us by name. This is the God who entered into a covenant relationship with His people, calling them to worship Him in spirit and in truth. This is the God who gives us a future beyond death, promising eternal life and the hope of a new heaven and a new earth. This unique story begins and ends with love, servanthood and devotion. Unity expresses God’s nature and makes visible the invisible to all people, redefining true power through humility, love and suffering. May we

seek after and allow the living God to take hold of us for God’s purposes in this world.

### Reflection

Walking into the gallery, on the far wall you see a stunning picture of a herd of elephants in the African tundra. The group of animals are gathered on the edge of a large water hole. Shading them is a spreading tree, behind which the blue, blue unending sky. You step closer into the gallery. You notice the baby elephant wallowing in the red, watery mud, a mother’s tender trunk resting on its flank. A little closer and you spy the two monkeys in the tree. A little closer still and you realise the picture is not one, but many – it is a mosaic.

## Questions

**Personal:** How do we understand God as a loving presence in our lives?

**Local:** Who can we honour in our community with kindness and love?

**Global:** How do we recognise God's loving presence in the world?

Closer still and each of the smaller pieces is revealed as an individual portrait of a person. You realise that this huge, wonderful, expansive wildlife extravaganza is actually composed of tiny pictures. Unity, diversity, visionary, extraordinary, breathtakingly beautiful. The power of the Artist's vision!  
The unified Church is God's chosen mosaic.

## Prayer

Loving God, we worship You as  
our Creator,  
for Your presence in the heavens  
beyond words  
and Your presence on earth beyond  
understanding.  
Through Your Son Jesus Christ we  
yield to Your tender care  
as the beginning and fulfilment  
of everything.  
Help us to fulfil Your will in our lives.  
Glory for ever to You,  
God our Father, Son and Holy Spirit.  
Amen.

## Go and do

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Explore ways to express the love of God to a neighbour.

**Local:** Explore ways to honour the Body of Christ of which we are a part.

**Global:** Take a world map and find time to pray with others over the entire world for seven days.

# Diwrnod 7

## Rhodd Crist

### Adnod ar gyfer y Diwrnod

‘Ond i bob un ohonom rhoddwyd gras, ei ran o rodd Crist.’  
(Effesiaid 4:7)

### Darnau ychwanegol o’r Beibl

Jeremeia:4-9

Salm 131

Luc 4:17-19

### Sylwadau

Mae’r Eglwys a’i holl ffurfiau a chymunedau lleol yn unigryw yn eu hamrywiaeth, sy’n deillio oddi wrth Dduw ei hun. Cyflwynwyd rhodd amrywiaeth gan un Duw, er un diben a chydag un gobaith. Fel Eglwys unedig, gallwn brofi realiti gras, rhodd Crist sy’n ein grymuso i weithio fel cyd-grewyr â Duw wrth i ni ddychmygu a gweithredu breuddwyd Duw ar gyfer pawb: Teyrnas Dduw yma ar y ddaear. Dechreuad hynny yw i ni gydnabod cyfoeth a grym ein Gwneuthurwr yng nghanol ein hamrywiaeth. Mae hynny’n ein hysgogi i ddod at ein gilydd, gyda Christ i ni’n sylfaen a’r Ysbryd Glân yn anogaeth, gan ogoneddu Duw yn ein

hundod a’n cenhadaeth. Fel yr Eglwys, yn benderfynol unedig ac yn rhyfeddol amrywiol, rydym yn gwneud y Duw anweledig yn weladwy i’r byd wrth i ni rannu rhodd Crist yn hael i bawb y mae Duw’n eu galw’n yn deulu iddo.

### Cwestiynau

**Personol:** Beth yw rhoddion Crist i chi?

**Lleol:** Lle rydych chi’n gweld mynegi cyfoeth Breuddwyd Duw a’i Deyrnas mewn amrywiol ffyrdd yn eich cyd-destun lleol?

**Byd-eang:** Sut allwn ni fel Eglwys roi delfrydau amrywiaeth, cynhwysiant a chyd-raddoldeb ar waith – mewn ffyrdd sy’n eu cynnal yn yr oes sydd ohoni?

## Myfyrdod

Ond dim ond plentyn bach ydw i,  
sut arall fyddech chi'n disgwyl  
i mi ymddwyn?  
Beth arall oeddech chi'n meddwl  
fy mod i'n mynd i'w wneud,  
heblaw chwarae ac ymhyfrydu yn y fi  
fel y'm crëwyd,  
i ddawnsio rhwng colofnau doethineb  
a gobaith,  
i lunio rhigymau a chanu nerth  
fy mhen?!  
A hynny gyda Duw i mi'n dyst,  
â geiriau mor ddwfn ryfeddol yn  
eneinio nid yn unig fy ngwefusau,  
ond yn tanio'n dyner yng nghraidd  
fy enaid:  
*O'r Eglwys,  
gobeithia yn yr Arglwydd am byth  
o'r dydd heddiw a hyd yn oes oesoedd...*

## Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,  
cyflwynaiast rasmusau rhyfeddol a doniau  
lawer i ni  
er mwyn adeiladu dy Gorff, yr Eglwys.  
Cynorthwya ni i gofleidio ac i  
gydnabod ein hunaniaeth unigryw  
bob un  
fel y byddwn yn ymuno fel plant yn  
rhyfeddod amrywiaeth dy wneud  
a'th greu.  
Anadla dy Ysbryd creadigol ynom,  
fel y gallwn ymateb a lledaenu dy air,  
dy freuddwyd, dy ras a'th harddwch  
i bobman y gallwn ei gyrraedd,  
gan weddio, yng nghanol ein chwarae,  
yn dy enw di.  
Amen.

## Ewch a Gnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Siaradwch â nifer o bobl y gallwch ymddiried ynddynt ynghylch pa ddoniau maent yn eu canfod ynoch chi ac ystyriwch sut gallwch fuddsoddi yn y doniau hynny a'u defnyddio yng ngwasanaeth Duw.

**Lleol:** Chwiliwch am brosiectau yn eich ardal sy'n enghreifftiau da o grwpiau amrywiol yn dod ynghyd, a gwirfoddolwch.

**Byd-eang:** Lle ydych chi'n gweld allgáu a defnyddio gwahaniaeth fel arf o fewn cymdeithas? Ystyriwch hanesion gan Gymorth Cristnogol a CAFOD o wahanol rannau o'r byd a rhowch gynnig ar rai o'u hawgrymiadau ynghylch gweithredu.

# Day 7

## Christ's gift

### Verse for the Day

'But each of us was given grace according to the measure of Christ's gift' (Ephesians 4:7).

### Additional Scripture Passages

Jeremiah 1:4-9

Psalm 131

Luke 4:17-19

### Commentary

The Church and all its local expressions and communities are unique in their God-given diversity. This gift is granted by one God, for one purpose, with one hope. As the Church united, we can realise Christ's gift of grace which empowers us to work as co-creators with God as we imagine and manifest God's dream for all people: God's Kingdom here on earth. It begins with us recognising our Maker's richness and power in the midst of our diversity. It moves us to come together, centred in Christ and emboldened by the Holy Spirit, in unity and purpose glorifying God. As the Church, resolutely united and wonderfully diverse, we make the

invisible God visible to the world as we share the gift of Christ unselfishly for all whom He calls kin.

### Questions

**Personal:** What are Christ's gifts to you?

**Local:** Where do you recognise the richness of God's Dream/Kingdom expressed in diverse ways in your local context?

**Global:** How can we as the Church live out the ideals of diversity, inclusion and equality – in ways that uphold them in this time?

## Reflection

But I am just a little child,  
how else would you expect me to act?  
What else did you think I was going  
to do,  
other than play and delight in who I  
was made to be,  
to dance between the pillars of wisdom  
and hope,  
to make up rhymes and sing at the top  
of my lungs?!  
That God as my witness,  
with words so profound anointed not  
just my lips,  
but tenderly set alight in my very soul:  
*Oh Church,  
hope in the Lord for ever  
from this time on and ever more...*

## Prayer

Lord Jesus Christ,  
You have bestowed wonderful graces  
and multiple gifts upon us  
for the sake of building up Your Body,  
the Church.  
Help us to embrace and recognise  
our individuality,  
so that we may be caught up in the  
childlike wonder of Your diverse  
making and creating.  
Breathe in us with Your creative Spirit,  
that we may respond and spread Your  
word, Your dream, Your grace and  
Your beauty,  
to every place that we can reach,  
as we play and pray in Your name.  
Amen.

## Go and do

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Speak to some people you trust about what gifts they recognise in you and explore how you might invest in them and use them for God.

**Local:** Seek out projects in your area that are good examples of diverse groups coming together, and volunteer.

**Global:** Where do you notice examples of exclusion and weaponising of difference in society? Explore Christian Aid or CAFOD stories from around the world and try some of their suggestions about engagement.

# Diwrnod 8

## Tyfu hyd at Grist

### Adnod ar gyfer y Diwrnod

‘Yr anrhegion a roddodd oedd ... am adeiladu corff Crist, nes i bob un ohonom ddod i undod y ffydd a gwybodaeth Mab Duw, i aeddfedrwydd, i fesur statws llawn Crist.’

(Effesiaid 4:11-13)

### Darnau ychwanegol o’r Beibl

Diarhebion 9:10

Salm 119:97-103

Marc 12:28–34a

### Sylwadau

Yn Effesiaid 4:13 datguddir i ni weledigaeth o gyfanrwydd Corff unedig Crist – trwy undod mewn ffydd ac aeddfedrwydd hyd lawnder statws Crist. Rydym yn cael ein gwahodd i brofi realiti sy’n fwy na gwybod; mae’n gorfforol fyw. Gwybod nad ydych chi’n gwybod popeth yw dechrau doethineb. Wrth i ni gamu ymlaen yn ostyngedig mewn syfrdan (ystyr arall i ofn), gallwn ddarganfod llwybrau tuag at aeddfedrwydd sy’n newid bywyd ac yn cynnig adnewyddiad nid yn unig ar ein cyfer ninnau’n bersonol, ond hefyd ar gyfer yr Eglwys, a thrwy’r Eglwys, ar gyfer y byd. Mae’n golygu dod yn debycach i Iesu ym mhob ffordd: caru fel mae yntau’n caru, gwasanaethu

fel mae yntau’n gwasanaethu, ac adlewyrchu ei gymeriad. Fe’n gelwir i gyd-gerdded ar ein taith ysbrydol, gan geisio undod â’n gilydd, tyfu yn ein profiad byw o Fab Duw ac ymdrechu tuag at lawnder statws Crist.

### Cwestiynau

**Personol:** Lle ydych chi wedi profi her ‘ymestyn’ wrth i chi ymdrechu am statws llawn Crist? Myfyriwch ar yr hyn y gwnaethoch ei ddysgu drwy hynny.

**Lleol:** Pwy sydd ei angen arnom i’n hymestyn rhywfaint rhagor wrth i ni weithredu cariad a gwasanaethu o fewn ein cyd-destun lleol?

**Byd-eang:** Gyda phwy mae angen i ni deithio er mwyn ein hymestyn wrth i ni weithredu cariad a gwasanaethu mewn cyd-destun cenedlaethol a byd-eang?

## Myfyrdod

Mae dy air yn oedi ynof fi  
fel blas melyster mêl,  
cyfoethog a chyflawn.

Blasaf dy berarogl,  
yfaf o hyfrydwch dy ffyrdd  
gan ddyfnhau sawr fy enaid innau.

Wrth i'th bresenoldeb gyfoethogi  
fy mod,  
a'th Ysbryd  
wedi'i dywallt dros of, gan dreiddio  
drwy fy meddyliau a'm teimladau  
dirgelaf,

rwyt yn fy hudo  
tuag at lwybr gwell,  
wedi'i balmentu â'th gyfoeth,  
lle troedia dy blant –  
pawb ohonom  
yn teithio  
yn ymhyfrydu  
yn dilyn  
yn dod yn bobl newydd.

## Gweddi

Bydded i mi esgyn gyda thi,  
Oleuni'r Byd,  
wedi fy ngalw i rannu gras  
a thrugaredd.  
Bydded i mi deithio wrth arweiniad  
dy Ysbryd,  
wedi fy ngalw at lwybr cyfiawnder  
a heddwch.  
Bydded i mi orffwys gan obeithio am  
bethau da  
yn y mannau yn dy greadigaeth lle  
byddi di, O Dduw, yn fy ngalw i fod  
yn offeryn iachâd.  
Bydded i bawb ohonom, â dewrder  
a llawenydd,  
weithio'n ffyddlon er dyfodiad  
dy deyrnas.  
Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r  
Ysbryd Glân.  
Yn awr a phob amser hyd yn oes  
oesoedd.  
Amen.

## Ewch a Gnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Myfyriwch ynghylch lle rydych chi'n ofni mynd. Sgwrsiwch gyda rhywun rydych chi'n ymddiried ynddynt ynglŷn â chyfluoedd i wneud gwaith disgybl sy'n teimlo'n heriol.

**Lleol:** Chwiliwch am grŵp neu weithgaredd lleol all ymestyn eich ffydd a'ch gwasanaeth, a dysgwch ychydig mwy trwy ymgysylltu â nhw.

**Byd-eang:** Dewch o hyd i rywbeth sy'n teimlo'n ddiwylliannol bell ac yn anghyfforddus i chi a chanfyddwch fwy am hynny a dysgu oddi wrtho.

# Day 8

## Growing into Christ

### Verse for the Day

‘The gifts he gave were ... for building up the body of Christ, until all of us come to the unity of the faith and of the knowledge of the Son of God, to maturity, to the measure of the full stature of Christ’ (Ephesians 4:11-13).

### Additional Scripture Passages

Proverbs 9:10

Psalms 119:97-103

Mark 12:28-34a

loves, serving as Jesus serves and reflecting His character. We are called to share our spiritual journey, seeking unity with each other, growing in our lived experience of the Son of God and striving for the full stature of Christ.

### Commentary

In Ephesians 4:13 we are shown a vision of the wholeness of the unified Body of Christ – through unity in faith and maturity into the fullness of Christ’s stature. We are invited into a reality that is more than knowing; it is embodied. Knowing that you do not know everything is the beginning of wisdom. As we humbly explore in awe (a different definition of fear), we can discover paths to maturity that are life changing and renewing not just for us personally, but also for the Church and, through the Church, for the world. It means becoming more like Jesus in every way: loving as Jesus

### Questions

**Personal:** Where have you experienced ‘stretching’ as you strive for the full stature of Christ? Reflect on what you learned.

**Local:** Who do we need to stretch us a bit more in our loving and serving in our local context?

**Global:** Who do we need to journey with to stretch us in our loving and serving in a national and global context?

## Reflection

Your word lingers in me  
like the taste of sweet honey,  
rich and full bodied.

I savour Your aroma,  
drink in the delights of Your ways  
deepening the flavour of my soul.

As Your presence enriches my  
very being,  
Your Spirit  
poured over and permeating  
my innermost thoughts and feelings.

You woo me  
towards a better path,  
paved with Your riches,  
populated with Your children –  
all of us  
journeying  
delighting  
following  
becoming.

## Prayer

May I rise with You, Light of  
the World,  
called to bring grace and mercy.  
May I journey in the wake of  
Your Spirit,  
called towards righteousness  
and peace.  
May I rest with the hope of  
good things  
in the places of Your creation that You,  
O God, call me to bring healing.  
May we all, with courage and joy,  
work faithfully for the coming of  
Your kingdom.  
Glory to the Father and to the Son and  
to the Holy Spirit.  
Now and always and unto the ages  
of ages.  
Amen.

## Go and do

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Reflect on where you are afraid to go. Have a conversation with someone you trust about discipleship opportunities that feel challenging.

**Local:** Find a group or local activity that stretches your faith and service, and learn a bit more by engaging with them.

**Global:** Find something culturally distant and uncomfortable for you and engage and learn from it.

# YR WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL 2026



[ctbi.org.uk/weekofprayer](http://ctbi.org.uk/weekofprayer)  
[weekofprayer.org](http://weekofprayer.org)

X (Twitter): #wpcu2026  
#wpcuwall

**ISBN: 978-0-85169-428-3**

## **Cyhoeddwyd gan**

**Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain  
ac Iwerddon**

Interchurch House  
35 Lower Marsh  
Llundain SE1 7RL  
[info@ctbi.org.uk](mailto:info@ctbi.org.uk),  
Ffôn: 0203 794 2288

Elusen gofrestredig rhif 1113299.  
Cwmni cyfyngedig trwy warant,  
rhif cofrestru 5661787.

## **Published by**

**Churches Together in Britain  
and Ireland**

Interchurch House  
35 Lower Marsh  
London SE1 7RL  
[info@ctbi.org.uk](mailto:info@ctbi.org.uk),  
Tel: 0203 794 2288

Registered charity no. 1113299.  
Company limited by guarantee,  
registered no. 5661787.